Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Adroddiad Ymchwilio ar ei Liwt ei Hun

A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?

Ymchwiliad Ar Ei Liwt ei Hun i weinyddiad asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru

ombwdsmon.cymru

Amdanom ni

Mae gennym 3 brif rôl:

Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ystyried cwynion bod cynghorwyr wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Rydym yn hybu gwelliannau systematig i wasanaethau a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac agored i bawb sydd ein hangen.

Mi allwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys print bras.
I wneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Cynnwys

4 Crynodeb

12 Rhagair

14 Cyflwyniad a fy awdurdodaeth

15 Cwmpas yr ymchwiliad

16 Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

17 Yr ymchwiliad

20 Tystiolaeth gan Staff

24 Adolygiad o achosion o sampl gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt

35 Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd

42 Enghreifftiau o arferion da a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad

46 Sylwadau ar yr adroddiad drafft

54 Dadansoddiad a Chasgliadau

71 Argymhellion

Crynodeb

Cyflwyniad

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf") i ymgymryd ag ymchwiliadau 'Ar ei Liwt ei Hun', lle mae tystiolaeth sy'n awgrymu methiant gwasanaeth systematig neu gamweinyddu. Mae hyn yn golygu y gallaf ymchwilio i fater y tu hwnt i'w effaith ar unigolyn a heb orfod aros am gŵyn.

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016 gyda'r nod o wella canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr sydd angen cymorth, drwy well cydlyniant a chydweithrediad rhwng cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r GIG.

Mae gan ofalwyr hawl cyfreithiol i gael 'asesiad o anghenion' os yw'n ymddangos bod angen cymorth arnynt neu ei bod yn debygol y byddant angen cymorth yn y dyfodol. Os yw'n ymddangos i awdurdod lleol fod gan ofalwr anghenion cymorth, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnig asesiad o anghenion i'r gofalwr. Gall gofalwr hefyd ofyn am asesiad o anghenion gofalwr os nad yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'u rôl fel gofalwr.

Dangosodd y pandemig COVID-19 bwysigrwydd gofalwyr i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod ac yn derbyn bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau gofalwyr awdurdodau lleol, ac ar y cymorth sydd ar gael i ofalwyr. Rwyf yn cydnabod bod awdurdodau yn parhau i adfer yn dilyn y pandemig.

Er bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi bod mewn grym er 2016, mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw llawer o ofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac mae'n debygol nad yw llawer o unigolion sy'n darparu gofal i'w teulu a'u ffrindiau yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael iddynt.

Nid oes amheuaeth fod rôl gofalwyr di-dâl yn hanfodol i gynnal gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwyf yn awyddus bod gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u hysbysu'n briodol o'u hawliau. Dylent gael help yn eu rôl drwy ddarparu camau atal ac ymyrryd cynnar i sicrhau bod eu cyfraniad at ofal cymdeithasol yn parhau, os ydynt yn dymuno hynny. Ni ddylai gofal gael ei ddarparu ar draul iechyd a llesiant y gofalwr. Ni ddylid ychwaith aros nes bydd argyfwng cyn dechrau darparu cymorth.

Yr ymchwiliad

Cafodd 4 awdurdod lleol eu cynnwys yn yr ymchwiliad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

Bu'r ymchwiliad yn ystyried:

a) A oedd yr awdurdodau lleol yr ymchwiliwyd iddynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015.

b) A oedd y sawl oedd â hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr yn cael eu hysbysu ac yn deall eu hawl i ofyn am asesiad o anghenion gofalwyr.

c) Lle'r oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu, a oedd y gwasanaethau asesu hynny'n cael eu cael eu darparu'n briodol ac a oedd awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau contractio'n briodol.

d) A oedd asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys rhai a gwblhawyd gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu cynnal yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Bu'r ymchwiliad yn ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, ar ffurf tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth gan staff, tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir a'u staff, tystiolaeth gan rai â phrofiad bywyd o asesu eu hanghenion fel gofalwyr, a thystiolaeth gan sefydliadau eraill. Cafwyd cyngor hefyd gan un o gynghorwyr proffesiynol yr Ombwdsmon.

Canfyddiadau

Canfu'r ymchwiliad:

- Bod rhwng 10% a 12% o'r boblogaeth (dros 5 mlwydd oed) yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt wedi'u nodi fel gofalwyr yng Nghyfrifiad 2021.

- Anghenion 2.8% o'r boblogaeth gofalwyr yn unig yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a oedd wedi cael asesu.

- Dim ond 1.5% o'r boblogaeth gofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt oedd wedi cael asesiad a arweiniodd at gynllun cymorth.

- Nid yw llawer o ofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac nid ydynt yn gwybod y gall cymorth fod ar gael iddynt. Roedd tystiolaeth nad oedd gofalwyr yn cael eu hysbysu'n briodol gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Mewn rhai achosion, roedd gofalwyr yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir heb gael eu hysbysu o'u hawliau.

- Cyfeirir at asesiadau o anghenion gofalwyr â gwahanol enwau, a oedd yn achosi dryswch ymhlith gofalwyr ac weithiau nid oedd gofalwyr yn sylweddoli bod eu hanghenion wedi cael eu hasesu. Mae angen cysondeb o ran yr iaith a ddefnyddir.

- Mae diffyg iaith glir yn gysylltiedig â'r broses asesu, rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynir (pan yn gymwys), yr hyn y gall gofalwyr ei ddisgwyl gan yr asesiad a sut y gall gofalwyr gael eu helpu'n dilyn asesiad. Byddai hyn yn galluogi gofalwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag asesu eu hanghenion neu beidio.

- Lle'r oeddent yn cael eu cynnal, roedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn cael eu cwblhau'n briodol ar y cyfan, ac eithrio asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yng Ngheredigion a Chastell-nedd Port Talbot.

- Gellid gwneud rhai gwelliannau wrth gofnodi asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys cynnwys yr unigolyn sy'n cael y gofal (pan yn ymarferol), i ba raddau mae'r gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu gofal a dymuniadau'r gofalwr o ran gwaith, addysg, hyfforddiant a hamdden.

- Mae angen gweithredu prosesau archwilio sicrwydd ansawdd ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd yn ardaloedd cynghorau Caerffili, Ceredigion a Chastell-nedd Port Talbot.

- Roedd gwahaniaethau rhwng yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn y ffordd mae cymorth a ddarperir i ofalwyr yn cael ei gofnodi. Yn yr asesiadau a adolygwyd, cofnododd Cyngor Sir y Fflint yr holl gymorth a ddarperir yn dilyn asesiad, gan gynnwys pan ond yn darparu 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth', ar ffurf Cynllun Cymorth, lle nad yw'r Awdurdodau eraill yr Ymchwiliwyd iddynt yn cofnodi 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' fel Cynllun Cymorth. Mae angen canllaw ar yr hyn sy'n cyfrif fel Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r hyn sy'n cyfrif fel Cynllun Cymorth, i sicrhau bod yr holl waith i gynorthwyo gofalwyr yn cael ei gofnodi, ac i wella cysondeb cofnodi.

- Gallai casglu data gwell, cyson a chymaradwy arwain at ddadansoddi gwell i hybu gwelliant, i fonitro cynnydd ac i ganfod meysydd lle mae angen rhagor o welliannau.

- Rhaid i ofalwyr gael cynnig eiriolaeth – nid yw'r penderfyniad ynglŷn â'r angen am eiriolydd yn un a ddylai gael ei wneud gan y staff sy'n cwblhau asesiadau, ac nid yw'n briodol i aelod o staff i ystyried eu hunain fel yr eiriolydd.

- Mae priodoldeb Taliadau Uniongyrchol[1] i ofalwyr yn amrywio ac mae angen i 3 o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn rhywbeth y mae'r gofalwr yn gallu ei reoli, gyda hyn yn cael ei adolygu os bydd amgylchiadau'n newid.

- Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd yn achos gofalwyr. Mae cydweithredu a chydweithio rhwng gwasanaethau iechyd and awdurdodau lleol yn achos gofalwyr a'u hawliau'n hanfodol ac mae'n rhywbeth a ddylai gael ei gryfhau.

- Mae cofnodi data cydraddoldeb yn ymwneud â gofalwyr yn gyfyngedig ac anghyson yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt.

Casgliadau

Nododd yr ymchwiliad ambell i arfer da ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt mewn perthynas â gweinyddu asesiadau o anghenion gofalwyr. Fy rôl o dan y Ddeddf yw tynnu sylw at unrhyw dystiolaeth o ddiffygion gweinyddol gyda'r bwriad o sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf wedi nodi sawl maes sydd angen eu gwella yn hyn o beth i sicrhau bod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Asesu Gofal a Chymorth (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn ymwneud â chanfod gofalwyr, sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau, cadw cofnodion a chasglu data.

1 Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian a delir gan yr awdurdod lleol i unigolyn a aseswyd fel rhywun sydd angen cymorth, fel ei bod yn gallu talu am eu gwasanethau cymorth eu hunain yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymorth.

Cyfran fechan iawn yn unig o ofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt sydd wedi cael asesu eu hanghenion ac mae cyfran lai fyth sydd wedi cael asesiadau a arweiniodd at gynllun cymorth. Mae angen gwella sut mae gofalwyr yn cael eu canfod i'w helpu drwy gamau ymyrryd cynnar ac atal, i'w helpu yn eu rôl fel gofalwyr ac i wneud yn siŵr nad yw gofalwyr yn cyrraedd pwynt o argyfwng cyn gofyn am gymorth gan yr awdurdod lleol. Nid gwaith yr awdurdodau lleol yn unig yw canfod gofalwyr yn gynnar; mae gan wasanaethau iechyd hefyd rôl i'w chwarae ac mae angen cydweithredu a chydweithio gwell rhwng gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol.

Dylai'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd fod yn ymwybodol o'u hymrwymiadau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac mae angen gwella trefniadau casglu data cydraddoldeb. Gallai gwella trefniadau cofnodi data cydraddoldeb helpu awdurdodau lleol i ganfod grwpiau o ofalwyr nad ydynt yn eu cyrraedd a sicrhau bod y grwpiau amrywiol o bobl sy'n darparu gofal i anwyliaid yn weladwy ac nad ydynt yn profi anfantais.

Mae'r ymchwiliad hefyd wedi canfod cyfleoedd i fonitro ansawdd a chysondeb asesiadau o anghenion gofalwyr.

Yn seiliedig ar y sampl o asesiadau a gwblhawyd a phrofiadau bywyd a adolygwyd, ar ôl i ofalwyr gael eu canfod a chael cynnig asesiad, gwelwyd fod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'u darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn cynnal asesiadau cymesur gydag ystod o ddatrysiadau creadigol a hyblyg yn cael eu cynnig i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd gan y gofalwr. Yn y sampl dan sylw, ac eithrio asesiadau gofalwyr ifanc yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, pan oedd anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu, roedd gofalwyr yn cael y cyfle i rannu eu profiadau fel gofalwyr ac i ddisgrifio eu hanghenion cymorth, a oedd yn arwain at asesiadau effeithiol a oedd yn penderfynu a oedd angen cymorth ar y gofalwr.

Argymhellion

Rwyf wedi gwneud sawl argymhelliad yn dilyn yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys:

- Gwelliannau i'r trefniadau a'r ffurflenni asesu anghenion gofalwyr.

- Adolygu taflen ffeithiau asesiad o anghenion gofalwyr i gynnwys amlinelliad o'r broses, rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, beth i'w ddisgwyl mewn asesiad ac enghreifftiau go iawn o sut y mae gofalwyr wedi cael eu helpu.

- Llythyr eglurhaol a anfonir gydag asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd sy'n disgrifio canlyniadau'r asesiad ac yn egluro'r trefniadau'r adolygu (a'r hyn nad ydynt yn rhan o'r trefniadau) a sut y gall gofalwyr gysylltu i ofyn am adolygiad neu ailasesiad.

- Gwelliannau i'r broses sicrhau ansawdd drwy gynnal archwiliadau rheolaidd.

- Hyfforddiant i staff i ddiweddaru eu gwybodaeth am hawliau gofalwyr ac i gadarnhau'r rôl sydd ganddynt i ganfod a hyrwyddo hawliau gofalwyr.

- Camau i wella trefniadau cofnodi gwybodaeth cydraddoldeb sy'n ymwneud â gofalwyr.

- Camau i wella cydweithredu a chydweithio rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys Meddygon Teulu, ysbytai, a fferyllfeydd.

O ran y potensial o ran dysgu ehangach, rwyf yn gwahodd y 18 awdurdod lleol arall yng Nghymru i:

- Ystyried yr argymhellion a wnaed i'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt ac i weithredu ar unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

- Adolygu canfyddiadau'r adroddiad hwn ar lefel Cymru gyfan, er enghraifft, Rhwydwaith Dysgu a Gwella Gofalwyr Cymru Gyfan (COLIN), i drafod a chynllunio i wella asesiadau o anghenion gofalwyr ledled Cymru.

Rwyf yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu eisoes drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr. Rwyf wedi cael sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddal ati i weithio ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i wella cymorth i ofalwyr ledled Cymru.

Diolch

Rwyf yn ddiolchgar am gydweithrediad pawb a fu'n gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn; yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'u staff, darparwyr gwasanaethau a gomisiynir a'u staff, y gofalwyr a gymerodd amser i rannu eu profiadau fel gofalwyr ac o gael neu geisio cael, asesiad o anghenion gofalwyr, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Rwyf wedi fy nghalonogi gan yr ymroddiad a ddangoswyd gan ofalwyr di-dâl a'u parodrwydd i ddarparu gofal i anwyliaid, a hynny'n aml ar draul eu llesiant eu hunain.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi fy ngalluogi i ddod i gasgliadau ac i wneud argymhellion i annog gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus sy'n darparu cymorth i ofalwyr. Hoffwn ddiolch i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt am dderbyn yr argymhellion a wnaed ac edrychaf ymlaen at adolygu'r dystiolaeth a ddarperir ganddynt i gadarnhau eu cydymffurfiaeth â'r argymhellion. Er na allaf wneud argymhellion ffurfiol i'r 18 awdurdod lleol arall, mae'n hanfodol bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu hystyried gan bob awdurdod lleol yng Nghymru a'u bod yn cymryd amser i fyfyrio ar eu darpariaeth eu hunain ar gyfer gofalwyr. Byddaf, fel y gwnaeth fy swyddfa â'n hymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun cyntaf, Adolygiad Digartrefedd: Ailymweld, yn monitro cynnydd a gwelliannau yn achos asesiadau o anghenion gofalwyr ledled Cymru.

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2 https://www.ombwdsmon.cymru/app/uploads/sites/2/2023/11/Adolygiad-Digartrefedd-Ailymweld.pdf

Rhagair

Dyma'r adroddiad 'ar ei liwt ei hun' cyntaf i mi ei gyhoeddi ers cael fy mhenodi'n Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2022. Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn rhoi pwerau i mi gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Mae hynny'n golygu fy mod yn gallu ymchwilio i fater y tu hwnt i'w effaith ar unigolyn a heb orfod aros am gŵyn.

Mae gan ofalwyr rôl ganolog o gefnogi a bod yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy, yn enwedig o ystyried y pwysau a'r galwadau parhaus y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru yn eu hwynebu. Dywedodd rhwng 10% a 12% o'r boblogaeth (dros 5 oed) yng Nghymru eu bod yn ofalwyr di-dâl yng Nghyfrifiad 2021 ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhagweld, yn ei Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl, y gallai hyn gynyddu i 16% o'r boblogaeth, erbyn 2037. O ystyried hyn, roeddwn yn bryderus mai dim ond cyfran gymharol isel o bobl sy'n ystyried eu hunain yn ofalwr oedd wedi cael asesiad o'u hanghenion eu hunain, fel gofalwr. Roeddwn yn bryderus efallai nad yw gofalwyr yn ymwybodol o'u hawl i gael asesiad annibynnol o anghenion gofalwr a rhoddodd fy ymchwiliad gyfle i ystyried pa mor effeithiol y gweinyddodd y 4 Awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt asesiadau o anghenion gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys, mewn rhai achosion, y defnydd o ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd.

Gall cyfrifoldebau gofalu effeithio ar lesiant gofalwyr, gyda llawer yn aberthu i ddarparu gofal i'w hanwyliaid. Mae llawer o ofalwyr hefyd yn agored i niwed oherwydd eu hoedran, hen ac ifanc, oherwydd eu hanawsterau iechyd corfforol neu feddyliol eu hunain, ac oherwydd anfantais gymdeithasol-economaidd. Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael eu hysbysu'n rhagweithiol o'u hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr, eu bod yn cael cynnig asesiad ac yn cael gwybod am y cymorth a allai fod ar gael i'w cynorthwyo yn eu rôl, yn dilyn asesiad.

Rwyf wedi fy nghalonogi gan y gwaith sydd yn cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau gofalwyr ledled Cymru. Rwyf yn falch y bydd cefnogi gofalwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac y bydd canfyddiadau fy adroddiad yn sylfaen i'w adolygiad parhaus o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.

Rwyf yn gobeithio y bydd y gwersi a'r argymhellion a amlygwyd yn fy adroddiad o gymorth, nid yn unig i'r 4 Awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt, ond i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Rwyf yn annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd i fyfyrio ar eu rôl eu hunain wrth gefnogi gofalwyr. Bydd gwneud hynny'n helpu i sbarduno gwelliant ledled Cymru ac yn sicrhau bod hawliau pob gofalwr, waeth ble mae'n byw neu ble mae'r unigolyn

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Hydref 2024

Cyflwyniad a fy awdurdodaeth

Mae Adran 4 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf") yn rhoi'r pwerau imi i gynnal ymchwiliad i fater o fewn fy awdurdodaet h, p'run a oes cwyn wedi'i gwneud imi neu beidio. Mae'r adroddiad ar yr ymchwiliad hwn i weinyddiad y broses asesu anghenion gofalwyr, wedi'i gyhoeddi o dan Adran 23 o'r Ddeddf.

Fel gyda phob un o'm hymchwiliadau, rwyf wedi ystyried a yw corff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r gyfraith, ei bolisïau a gweithdrefnau ei hun, ac yn unol â safonau da o weinyddu. Mae fy ystyriaethau yn cynnwys a yw darparwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi darparu gwybodaeth ddigonol, wedi ymddwyn mewn modd amserol, wedi cadw cofnodion digonol ac wedi ymddwyn yn deg. (Mae rhagor o wybodaeth yng nghanllaw Egwyddorion Gweinyddu Da fy swyddfa ac ym mharagraffau 7 ac 8, isod.)

Rhaid imi sicrhau bod testun ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun yn cyd-fynd ag Adran 5 o'r Ddeddf. Ar ôl cynnal asesiad rhagarweiniol ac ymgynghoriadau (Atodiad – Adolygu data), roeddwn o'r farn y byddai ymchwiliad i weinyddiad asesiadau o anghenion gofalwyr yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun.

Cwmpas yr ymchwiliad

Cafodd pedwar awdurdod lleol eu cynnwys yn yr ymchwiliad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Nodir y rhesymwaith dros ymchwilio i'r awdurdodau lleol hyn yn Atodiad 2.

Bu'r ymchwiliad yn ystyried:

a) A oedd yr awdurdodau lleol yr ymchwiliwyd iddynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ("y Ddeddf") a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015.

b) A oedd y sawl sydd â hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr yn cael eu hysbysu o hynny ac a oeddent yn deall eu hawl i ofyn am asesiad o anghenion gofalwyr.

c) Lle'r oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu, a oedd y gwasanaethau asesu hynny'n cael eu darparu'n briodol ac a oedd awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau contractio'n briodol.

d) A oedd asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys rhai a gwblhawyd gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir, yn cael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, lle'r ymddengys fod angen cymorth ar ofalwr, i asesu a oes angen cymorth ar y gofalwr (neu a fyddant yn debygol o fod angen cymorth yn y dyfodol) ac, os oes angen cymorth arnynt, beth yw'r anghenion hynny (neu'n debygol o fod yn y dyfodol). Ceir rhagor o fanylion am ddeddfwriaethau, canllawiau a pholisïau perthnasol y cyfeirir atynt yn fy ymchwiliad yn Atodiad 3.

Bwriedir i'r canllaw helpu cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweinyddu'n effeithiol ac yn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid. Hefyd, lle mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, mae gofyniad ar bob gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod ganddynt brosesau digonol ar waith i fonitro'r gwasanaethau hynny'n briodol.

Mae canllaw Egwyddorion Gweinyddu Da yr Ombwdsmon yn nodi 6 egwyddor:

Egwyddor 1	Cael pethau yn iawn
Egwyddor 2	Canolbwyntio ar y cwsmer
Egwyddor 3	Bod yn agored ac atebol
Egwyddor 4	Gweithredu'n deg ac yn gymesur
Egwyddor 5	Gwneud pethau'n iawn
Egwyddor 6	Ceisio gwelliant parhaus

Yr ymchwiliad

Dangosir methodoleg yr ymchwiliad yn Atodiad 4.

Bu'r ymchwiliad yn casglu tystiolaeth o sawl ffynhonnell, yn benodol:

- **Data –** Casglwyd data ar y boblogaeth gofalwyr a nifer y gofalwyr yr oedd eu hanghenion wedi cael eu hasesu gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Gweler Atodiad 5.

- **Yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt –** Gofynnwyd am, a darparwyd tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys sampl o asesiadau a gwblhawyd, gan bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Hefyd cyfwelwyd uwch aelod o staff o bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Gweler Atodiadau 6, 7, 8 a 9.

- **Darparwyr gwasanaethau a gomisiynir –** Darparwyd tystiolaeth ddogfennol gan bob un o'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynir sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr ar ran 3 o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt:

  - Adferiad a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru ("NEWCIS"), sy'n darparu gwasanaethau i Gyngor Sir y Fflint
  - Gofalwyr Ceredigion Carers, sy'n darparu gwasanaethau i Gyngor Sir Ceredigion
  - Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, sy'n darparu gwasanaethau i Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

Hefyd cyfwelwyd uwch aelod o staff o bob darparwyr gwasanaethau a gomisiynir. Gweler Atodiadau 6, 7, 8 a 9.

- **Staff** - Casglwyd tystiolaeth, ar ffurf arolwg dienw, gan staff o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'u darparwyr gwasanaethau a gomisiynir. Gweler Atodiadau 6, 7, 8 a 9.

- **Gofalwyr** – Casglwyd tystiolaeth gan ofalwyr o bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a oedd â phrofiad bywyd o asesu eu hanghenion. Gweler Atodiadau 6, 7, 8 a 9.

- **Sefydliadau eraill** - Cyflwynodd Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru dystiolaeth ar ôl ymateb i alwad cyhoeddus am dystiolaeth. Gweler Atodiad 10.

Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn, ond rwyf yn fodlon nad oes dim byd o bwys wedi'i hepgor.

Cafwyd cyngor proffesiynol gan un o gynghorwyr proffesiynol yr Ombwdsmon, Gweithiwr Cymdeithasol â phrofiad o weithio mewn gwasanaethau plant ac oedolion (“y Cynghorydd”).

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ystod asesiadau o anghenion gofalwyr ac wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chynlluniau cymorth. Nid swyddogaeth fy swyddfa yw gwneud canfyddiadau terfynol ynglŷn ag a yw hawliau dynol unigolyn wedi'u torri neu a yw rhywun wedi profi gwahaniaeth, erledigaeth neu aflonyddwch o ganlyniad i nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, byddaf yn gwneud sylwadau, pan yn briodol, ar y sylw a delir gan gyrff cyhoeddus i'w dyletswyddau cyfreithiol a'r hawliau a'r warchodaeth mae'r ddeddfwriaeth yn ei chynnig i unigolion. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae eu prosesau penderfynu a'u polisïau'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig (“Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus”).

Rhoddwyd cyfle i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, y darparwyr gwasanaethau a gomisiynir a Llywodraeth Cymru i weld ac i gynnig sylwadau ar ddrafftiau o'r adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol.

Tystiolaeth gan Staff

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- Nifer fach yn unig o staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ("GCCh") a ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant yn gysylltiedig ag asesiadau o anghenion gofalwyr.

- Dywedodd llawer o staff sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr eu bod yn brofiadol yn eu rôl a'u bod wedi cael hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn 2022. Fodd bynnag, roeddent yn dweud nad oeddent wedi cael dim hyfforddiant penodol o ran sut i gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr ac y byddent yn croesawu rhagor o hyfforddiant.

- Dywedodd ymatebwyr eu bod yn ymgorffori llesiant ac anghenion y gofalwr mewn Asesiad Integredig ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal gyda rhai'n dweud bod hyn yn ddibynnol ar ddewis y gofalwr.

- Roedd ymatebwyr yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o wasanaethau cyfieithu i helpu gofalwyr, gan gynnwys rhai ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

- Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd y gallai gofalwyr eu defnyddio i gysylltu â'u gwasanaeth i helpu ag unrhyw anawsterau cyfathrebu.

- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gynnig cymorth eiriolaeth i helpu gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.

- Canmolodd ymatebwyr waith y Tîm Gofalwyr, tîm pwrpasol sy'n darparu cymorth i ofalwyr a gweithwyr cymdeithasol a nodwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu helpu gan y Tîm a'u bod yn gallu dibynnu arnynt am help a chyngor.

Cyngor Sir Ceredigion

- Dywedodd staff GCCh a rhai sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr eu bod wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr a oedd yn eu helpu i gyflawni eu rôl.

- Dywedodd staff sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr nad oedd llawer o ofalwyr yn cael gwasanaethau yn eu rhinwedd eu hunain, gan fod seibiannau a

'gwasanaethau eistedd' yn rhan o asesiad o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

• Roedd ymatebwyr yn y Cyngor a Gofalwyr Ceredigion Carers yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o wasanaethau cyfieithu i helpu gofalwyr, sy'n cynnwys ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg a BSL.

• Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cynnig ystod o ffyrdd sy'n galluogi gofalwyr i gysylltu â'i wasanaeth i helpu ag unrhyw anawsterau cyfathrebu.

• Cyfeiriodd ambell ymatebwr at gynnig cymorth eiriolaeth i helpu gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.

• Nododd ymatebwyr nifer o rwystrau a oedd yn golygu nad oedd anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu.

• Mynegodd staff Gofalwyr Ceredigion Carers bryderon am nad oedd rhai o dimau'r Cyngor yn siŵr pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu asesiadau o anghenion gofalwyr, lle'r oedd y gofalwr yn oedolyn a'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn blentyn – nodwyd y byddai canllawiau clir yn fuddiol.

Cyngor Sir y Fflint

• Dywedodd staff GCCh eu bod wedi cael hyfforddiant yn y gorffennol ynglŷn ag asesiadau o anghenion gofalwyr gan NEWCIS, ond bod hynny wedi dod i ben yn ystod y pandemig COVID-19. Dywedwyd eu bod hefyd wedi cael sesiynau gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol[3] ar gyfer gofalwyr.

• Dywedodd staff y Cyngor sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr eu bod naill ai wedi cael hyfforddiant yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr sawl blwyddyn yn ôl neu nid oeddent wedi cael dim hyfforddiant o gwbl yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr. Roedd y rheolwyr wedi dweud wrthynt am gyfeirio gofalwyr at NEWCIS i asesu eu hanghenion.

• Dywedodd staff NEWCIS eu bod wedi cael hyfforddiant ar gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr, gyda llawer ohonynt â chymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, neu eu bod yn brofiadol yn y maes.

3 Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian a delir gan yr awdurdod lleol i unigolyn sydd wedi'i asesu fel rhywun sydd angen cymorth, i'w galluogi i dalu am eu gwasanaethau cymorth eu hunain yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymorth.

- Dywedodd staff Adferiad nad oeddent wedi cael dim hyfforddiant ar gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr a'u bod wedi canfod hyfforddiant addas ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

- Roedd ymatebwyr yn y Cyngor, NEWCIS ac Adferiad yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o wasanaethau cyfieithu i helpu gofalwyr, gan gynnwys ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg a BSL.

- Dywedodd dau ymatebwr y byddent yn defnyddio aelod o'r teulu neu ffrind i gyfieithu ar ran y gofalwr.

- Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cynnig ystod o ffyrdd sy'n galluogi gofalwyr i gysylltu â'i wasanaeth i helpu ag unrhyw anawsterau cyfathrebu.

- Cyfeiriodd ambell ymatebwr at gynnig cymorth eiriolaeth i helpu gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.

- Dywedodd staff NEWCIS fod cyfleoedd i atgyfeirio gofalwyr at NEWCIS yn cael eu colli weithiau gan 'atgyfeirwyr allanol', sy'n golygu sefydliadau sy'n atgyfeirio gofalwyr at ei wasanaethau, gan gynnwys asesiadau o anghenion gofalwyr.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

- Roedd yn siom inni na chawsom ymateb i'n harolwg gan staff GCCh staff. Cafwyd ymateb gwael i'n harolwg gan staff yr oedd y Cyngor wedi dweud a allai gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr fel rhan o'u rôl.

- Dywedodd ymatebwyr sy'n gweithio â phobl ifanc y byddent yn cwblhau asesiad o anghenion gofalwyr ifanc a bod hynny'n cael ei gynnig fel rhan o asesiadau Plant a Phobl Ifanc.

- Dywedodd ymatebwyr a oedd yn gweithio ag oedolion y byddent yn atgyfeirio'r gofalwr at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. Dywedodd rhai ymatebwyr sy'n gweithio ag oedolion na fuasent yn cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr.

- Cadarnhaodd mwyafrif y staff y dywedodd y Cyngor sydd wedi cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr fel rhan o'u rôl nad oeddent wedi cael dim hyfforddiant penodol yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr ac roedd llawer o'r farn nad oedd ei angen, am nad oeddent yn cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn eu rolau.

- Dywedodd staff Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot eu bod yn cael hyfforddiant mewnol ar gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr.

- Dywedodd staff Gwaith Cymdeithasol y byddai'n fuddiol cael gwybod beth oedd canlyniad eu hatgyfeiriadau at y Gwasanaeth Gofalwyr.

- Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot nad oedd y Cyngor yn cael ei hysbysu o ganlyniad asesiad oni bai bod yr asesiad yn dangos angen am wasanaethau statudol.

- Roedd ymatebwyr yn y Cyngor a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o wasanaethau cyfieithu i helpu gofalwyr, gan gynnwys ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg a BSL.

- Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cynnig ystod o ffyrdd sy'n galluogi gofalwyr i gysylltu â'i wasanaeth i helpu ag unrhyw anawsterau cyfathrebu.

- Cyfeiriodd ambell ymatebwr at gynnig cymorth eiriolaeth i helpu gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.

- Mynegodd staff gwasanaeth gofalwyr Castell-nedd Port Talbot bryderon nad oedd gofalwyr, pan oeddent yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Gofalwyr, yn cael gwybod beth oedd asesiad o anghenion gofalwyr, na beth oedd ei ddiben.

- Mynegodd staff gwasanaeth gofalwyr Castell-nedd Port Talbot bryderon er bod gofalwyr wedi dweud wrth eu Meddyg Teulu neu Weithiwr Cymdeithasol eu bod yn profi anawsterau yn eu rôl fel gofalwyr, ni chawsant gynnig asesiad o anghenion gofalwyr. Dywedodd rhaid bod gofalwyr yn gorfod brwydro am bopeth gan yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol a chymdeithasau tai.

- Mynegodd rai o staff gwasanaeth gofalwyr Castell-nedd Port Talbot ragor o bryderon am y nifer cyfyngedig o asesiadau o anghenion gofalwyr a oedd yn cael eu cwblhau gan y Cyngor.

Adolygiad o sampl o achosion gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt

Gofynnwyd am hapsampl o 10% o asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt – cyfanswm o 173 o asesiadau. Darparwyd y rhain ar gyfer oedolion a phobl ifanc sy'n ofalwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir y Fflint, ac ar gyfer oedolion yn unig gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Yn achos gofalwyr ifanc yng Ngheredigion, cyflwynodd Gofalwyr Ceredigion Carers daenlen o asesiadau gofalwyr ifanc a gwblhawyd ganddynt. Yn achos gofalwyr ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot, cyflwynodd y Cyngor ddogfennau a oedd yn cynnwys rhestr wirio o dasgau y gallai gofalwyr ifanc fod yn helpu i'w cyflawni. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion Carers a Chyngor Castell-nedd Port Talbot fod nodiadau o achosion ychwanegol wedi'u cofnodi ar gronfa ddata a oedd yn disgrifio sefyllfa'r teulu, ond nid oeddent yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth honno ac ni chafodd ei darparu i'r ymchwiliad.

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gofyniad ar awdurdodau lleol i asesu a oes angen cymorth ar ofalwr neu a yw'n debygol o fod ei angen yn y dyfodol ac, os felly, i asesu beth yw'r anghenion hynny, neu beth ydynt yn debygol o fod yn y dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd fod y sampl 10% o asesiadau a gwblhawyd a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn dangos asesiadau o anghenion gofalwyr am gymorth ymhlith oedolion ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt ac yn achos gofalwyr ifanc yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir y Fflint. Dywedodd fod y problemau a'r anghenion yr oedd gofalwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i'w rôl fel gofalwyr wedi eu hystyried gyda gofalwyr yn gyson yn gallu hunan-adrodd ar yr hyn a oedd yn eu poeni. Dywedodd y Cynghorydd fod yr anghenion a nodwyd gan ofalwyr yn eang ac amrywiol ac yn dod rhywle o fewn ystod, fel a ganlyn:

- Bod angen gwybod pa gymorth cyffredinol oedd ar gael neu a fyddai ar gael, pe bai ei angen yn y dyfodol.

- Angen 'darn' bychan o gymorth sy'n cael ei dargedu, er enghraifft, grantiau bychain neu wasanaethau eistedd untro ar gyfer achlysur/angen penodol.

- Angen cymorth mwy sylweddol fel newidiadau i gynllun gofal yr unigolyn sy'n derbyn gofal, er mwyn helpu'r gofalwr neu i roi help uniongyrchol i'r gofalwyr eu hunain. Er enghraifft, yn Sir y Fflint, cafodd gofalwr help i symud i hunangyflogaeth.

Dywedodd y Cynghorydd fod, yn ychwanegol ar yr anghenion ymarferol hyn, nifer o enghreifftiau ym mhob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt lle'r oedd gofalwyr yn gallu rhannu a thrafod yr agweddau emosiynol ar eu rôl fel gofalwyr gyda'r gweithiwr asesu, gan gynnwys sefyllfaoedd lle'r oedd y gofalwr yn gallu mynegi'r gorbryder, y straen ac, ar adegau, y rhwystredigaeth, sy'n codi wrth ofalu.

Dywedodd y Cynghorydd fod rhai asesiadau'n dangos bod gweithwyr yn helpu gofalwyr i ganfod datrysiad i broblemau ac i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain. Er enghraifft, yng Nghaerffili, cysylltodd staff â'r Meddyg Teulu am gymorth gyda phroblemau'n deillio o effaith rôl ofalu ar gyflogaeth y gofalwr ac, yng Ngheredigion, bu staff yn helpu gofalwr i feddwl sut i bennu ffiniau â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd y Cynghorydd fod yr asesiadau a ddogfennwyd, ar y cyfan, yn cofnodi fod gofalwyr yn cael eu holi am eu profiadau a'u bod yn gallu mynegi ac edrych ar ystod ac amrywiaeth eang o anghenion gofal sy'n dangos, yn y samplau a archwiliwyd, fod y 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt wedi asesu mewn modd effeithiol a oedd oedolion sy'n ofalwyr angen cymorth a'u bod wedi gweithio â gofalwyr i ganfod beth yn union oedd yr anghenion hynny.

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (asesu anghenion unigolion) ("Cod Rhan 3") yn nodi nifer o ofynion. Dywed y Cod Rhan 3 fod yn rhaid i asesiadau gynnwys asesiad i ganfod i ba raddau mae'r gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal. Dywedodd y Cynghorydd fod hyn yn amrywio yn y sampl o asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd. Mewn llawer o achosion dywedodd fod y gofalwr wedi rhannu gwybodaeth o'u gwirfodd, naill ai'n benodol neu'n ymhlyg, a bod hynny wedi'i nodi ar eu hasesiad. Roedd llawer o ofalwyr wedi rhannu gwybodaeth o'u gwirfodd am y graddau roeddent wedi ymrwymo i ddarparu gofal parhaus. Dywedodd y Cynghorydd, fodd bynnag, nad oedd

y gallu a'r parodrwydd i ddarparu gofal yn cael ei gofnodi bob amser ac roedd rhai asesiadau gan bob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt yn dawel ar y mater. Dywedodd, gan fod hyn yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth a'r Cod Rhan 3, y dylid rhoi sylw iddo a'i gofnodi ym mhob asesiad.

Dywed y Cod Rhan 3 fod yn rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o'r canlyniadau yr hoffai'r gofalwr eu cyflawni. Os yw'r gofalwr yn blentyn, rhaid i'r asesiad bob amser gynnwys y canlyniadau y mae'r unigolyn/unigolion â chyfrifoldeb rhianta yn dymuno i'r plentyn eu cyflawni. Dywedodd y Cynghorydd fod y canlyniadau yr hoffai gofalwyr sy'n oedolion eu cyflawni wedi cael sylw priodol yn y sampl a ystyriwyd. Dywedodd, er bod gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynir fformatau asesu gwahanol, roeddent i gyd yn gofyn am gynnwys barn y gofalwr am yr hyn roeddent ei eisiau neu ei angen. Dywedodd y Cynghorydd fod gofalwyr yn y sampl yn agored a chlir ynglŷn â'u hanghenion a'u canlyniadau eu hunain, a bod hyn wedi'i gofnodi gan weithwyr a'i fod yn 'gonglfaen' i'r asesiadau.

O ran gofalwyr ifanc, dywedodd y Cynghorydd ei bod yn anodd rhoi sylw i'r gofyniad hwn yn achos Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Dywedodd fod Gofalwyr Ceredigion Carers wedi cyflwyno taenlen nad oedd yn cynnwys digon o fanylder, er ei bod wedi gallu canfod, mewn 1 neu 2 o achosion, bod ymgynghori wedi digwydd â rhieni/teulu ond, mewn achosion eraill, nid oedd cyfeiriad at farn y teulu. Dywedodd fod y canlyniadau yr hoffai gofalwyr ifanc eu gweld wedi'u nodi ond eu bod yn gryno iawn ac nid oedd llawer o wybodaeth fanwl. Dywedodd y Cynghorydd fod yr asesiadau gofalwyr ifanc a gyflwynwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys rhestr wirio o weithgareddau mae pobl ifanc yn ymgymryd â hwy a sut mae gofalu'n effeithio ar y person ifanc. Dywedodd fod y rhain yn adnodd defnyddiol iawn i helpu person ifanc i ystyried a nodi effaith eu rôl fel gofalwyr a'u bod, felly, yn enghraifft bosibl o ymarfer da, ond ni ddarparwyd rhagor o wybodaeth. Dywedodd y Cynghorydd na ellid, o ganlyniad i hyn, dod i gasgliadau i ateb llawer o'r cwestiynau a godwyd gan yr ymchwiliad.

O ran asesiadau gofalwyr ifanc a gwblhawyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, dywedodd y Cynghorydd nad oedd ei ddogfennaeth yn cynnwys yn benodol y canlyniadau yr oedd yr unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno i'r plentyn eu cyflawni. Roedd yn cydnabod nad oedd hyn yn golygu o reidrwydd nad oedd y mater yn cael sylw, gan fod tystiolaeth glir fod

barn rhieni'n cael ei chasglu gan y gweithwyr ar wahanol adegau mewn asesiadau, felly roedd yn bosibl bod y gweithwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnwys y pwynt hwn. Dywedodd y Cynghorydd fod deunydd diddorol yn yr asesiadau a gwblhawyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a oedd yn disgrifio gwaith a wnaed â'r gofalwyr ifanc eu hunain i ganfod eu barn, eu teimladau a'r hyn roeddent am ei gael, gydag amrywiaeth o adnoddau'n cael eu defnyddio gan gynnwys llyfr, "The Huge Bag of Worries", cardiau lluniau a'r adnodd 'Teen Talk' "I feel", i alluogi'r gofalwyr ifanc i rannu eu barn a'u teimladau. Dywedodd fod y rhain yn enghreifftiau da o ran treulio amser â phobl ifanc a defnyddio adnoddau priodol i edrych ar eu rôl fel gofalwyr ac effaith hynny arnynt.

Yn achos Cyngor Sir y Fflint, dywedodd y Cynghorydd fod ei ddogfennaeth asesiadau gofalwyr ifanc yn cynnwys asesiad o'r canlyniadau yr oedd y gofalwyr ifanc am eu cael a'r rhai roedd yr unigolyn (unigolion) â chyfrifoldeb rhiant am y person ifanc, gyda barn yr unigolyn (unigolion) â chyfrifoldeb rhiant yn cael ei dangos ochr yn ochr â barn y person ifanc. Dywedodd y Cynghorydd mai'r dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint oedd, yn ei barn hi, y mwyaf effeithiol i sicrhau bod y cwestiynau allweddol hyn yn cael sylw.

Mae'r Cod Rhan 3 yn nodi bod yn rhaid i'r asesiad ddangos i ba raddau y gallai cymorth, gwasanaethau ataliol, neu ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor neu gymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Dywedodd y Cynghorydd fod hyn wedi cael sylw penodol yn yr holl asesiadau a ystyriwyd. Dywedodd fod asesiadau wedi'u seilio'n bennaf naill ai ar yr hyn a nodwyd gan y gofalwr fel angen/problem neu ar yr hyn y gofynnwyd amdano fel datrysiad ac roedd y datrysiadau'n rhai cymharol syml ac wedi'u targedu. Felly, ar ôl i gais y gofalwr gael ei nodi a bod y gwasanaethau neu'r cymorth perthnasol wedi'u nodi, roedd y cwestiwn, i bob pwrpas, wedi'i ateb.

Dywedodd y Cynghorydd nad oedd yn amlwg, yn achos yr un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, a oedd y gofalwyr yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gynnig sylwadau ar y broses asesu, nac a oeddent yn teimlo bod eu canlyniadau wedi'u cyflawni. Dywedodd fod hyn wedi'i gynnwys mewn dogfennaeth gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir y Fflint ond mai'n anaml yn unig yr oedd hyn yn cael ei gwblhau gan weithwyr. Roedd y Cynghorydd yn cydnabod efallai mai dim ond pan oedd gofalwr yn mynegi anghytundeb neu anfodlonrwydd yr oedd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi, ond dywedodd nad oedd yn amlwg a oedd y gofalwyr

yn cael eu holi am hyn ynteu'n cael eu gadael i roi'r wybodaeth o'u gwirfodd. Dywedodd y byddai'n fuddiol pe bai'r holl Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn ystyried hyn, i sicrhau bod gofalwyr yn fodlon â'r broses asesu a'i chanlyniadau ac er mwyn gallu rhoi mwy o sylw i anfodlonrwydd neu anghenion heb eu diwallu.

O'r sampl a adolygwyd, dywedodd y Cynghorydd ei bod yn ymddangos bod y broses asesu yn dueddol o gael ei harwain gan y gwasanaeth, yn enwedig yn achos asesu oedolion. Dywedodd yr ymddengys fod gofalwyr yn dod i'r broses gyda syniad pendant am y ddarpariaeth yr hoffent ei chael gydag un neu ddau o ganlyniadau penodol yr hoffent eu cyflawni a bod gwasanaethau a chymorth yn cael eu llunio i gyd-fynd â'r ceisiadau rheini. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd dim o'i le ar hyn, ynddo'i hun. Dywedodd ei fod yn bwysig ac yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a'r canllaw y dylai asesu a chynnwys gofalwyr fod yn gymesur, a bod hyn yn gwneud synnwyr pa fo gofalwyr yn gwybod eisoes yr hyn yr hoffent ei gael. Fodd bynnag, dywedodd fod tueddiad ymhlith gofalwyr i 'flaenbrosesu' anghenion hunan ddiffiniedig lle maent yn gwybod eisoes bod gan yr awdurdod lleol gyfres o ddatrysiadau ac y gall y mater derfynu gyda hynny, er bod ganddynt o bosibl anghenion eraill nad ydynt eto wedi'u crybwyll nac sydd wedi cael eu hystyried. Dywedodd fod pobl efallai yn amharod i ddweud nad oeddent yn gwbl fodlon â'r cymorth roeddent yn ei gael ac yr hoffent edrych arno'n fanylach, oni bai bod rhywun wedi rhoi cyfle penodol iddynt i wneud hynny.

Nododd y Cynghorydd fod gwaith papur asesiadau o anghenion oedolion sy'n ofalwyr yng Nghyngor Sir y Fflint yn cynnwys gwybodaeth yn yr asesiad am adolygiadau ar ôl 6 a/neu 12 wythnos, gyda'r gweithiwr yn cysylltu â'r gofalwr i weld a yw canlyniadau wedi'u cyflawni ac i ba raddau. Dywedodd fod hyn yn cyflawni'r diben o roi cyfle i'r gofalwr i ddatgan a oedd canlyniadau wedi'u cyflawni. Roedd y Cynghorydd o'r farn bod hyn yn digwydd am fod Cyngor Sir y Fflint yn categoreiddio pob darpariaeth yn yr asesiadau a adolygwyd fel 'cynllun cymorth' a'i fod felly'n gofyn am adolygiad, ond roedd yn cydnabod nad oedd hyn o reidrwydd yn ddull priodol i awdurdodau lleol eraill. Daeth y Cynghorydd i'r casgliad y gallai ac, yn ei barn hi, y dylai'r broses syml o wirio i ba raddau roedd y gofalwr yn teimlo bod canlyniadau wedi'u cyflawni a chofnodi eu hymatebion ddigwydd bob amser ar ddiwedd pob asesiad neu gysylltiad.

Dywed y Cod Rhan 3 fod yn rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y gofalwr ac, os yn ymarferol, yr unigolyn y mae'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal iddynt, yn yr asesiad. Roedd pob asesiadau a adolygwyd yn cynnwys y gofalwr. O ran yr unigolyn sy'n derbyn gofal, yn achos oedolion, dywedodd y Cynghorydd nad oeddent yn cael eu cynnwys bob amser ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt. Roedd yn dyfalu mai'r rheswm pam, mewn rhai achosion, oedd am y byddai cyfraniad yr unigolyn dan sylw'n gyfyngedig am eu bod mor ifanc, oherwydd salwch, neu oherwydd effeithiau dementia, er enghraifft. Dywedodd y Cynghorydd fod y gofalwr, mewn rhai achosion wedi mynegi straen, rhwystredigaeth, anobaith neu hyd yn oed ofn tuag at yr unigolyn sy'n derbyn gofal, a'i bod yn deg tybio bod hyn yn ffactor ac na fyddai'n briodol bob amser i gynnwys yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd fod y ddarpariaeth y gofynnir amdani weithiau'n syml iawn a gyda'r bwriad o helpu'r gofalwr ei hun; efallai na fyddai'n angenrheidiol nac yn briodol i holi barn yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

Yn achos gofalwyr ifanc, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir y Fflint, roedd yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn gysylltiedig â'r broses fel arfer os oes yn rhiant, ond nid lle'r oedd yn blentyn arall. Dywedodd fod hyn yn eithaf tebygol am na fyddai'n briodol i wneud hynny o ran dynameg y teulu a theimladau'r ddau blentyn, ond ni nodwyd mai dyna oedd yr achos.

Dywedodd y Cynghorydd, ar y cyfan, ei bod yn anorfod fod asesiadau o anghenion gofalwyr yn cynnwys trafodaethau am yr unigolyn sy'n derbyn gofal, gan gynnwys peth gwybodaeth bersonol am eu hiechyd, heriau, galluoedd a gweithrediadau o ddydd i ddydd a, chan fod canlyniadau asesiadau'n effeithio ar yr unigolyn sy'n derbyn gofal, er y gobeithid y byddai'r effaith honno'n un bositif, byddai'n arfer da i'r unigolyn sy'n derbyn gofal gael y cyfle i rannu eu barn ac i fod yn ymwybodol o'r broses, oni bai bod rheswm penodol pam na ddylai hynny ddigwydd. Dywedodd y Cynghorydd fod hyn yn ofyniad penodol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Cod Rhan 3 ac awgrymwyd y dylai hynny ddigwydd bob amser ac y dylai peidio â chynnwys yr unigolyn sy'n derbyn gofal fod yn benderfyniad bwriadol ac y dylai'r rheswm am hynny gael ei gofnodi mewn asesiadau.

Dywed y Cod Rhan 3 fod yn rhaid i'r asesiad ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio ac a ydynt mewn addysg neu hyfforddiant neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Dywed hefyd, os yw'r gofalwr yn blentyn, rhaid i'r asesiad ystyried eu hanghenion datblygiadol ac i ba raddau y mae'n

briodol i'r plentyn ddarparu gofal. Dywed y Cod Rhan 3 y dylai hyn wneud i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r plentyn sy'n ofalwr mewn gwirionedd yn blentyn sydd â'u hanghenion gofal a chymorth eu hunain ac a ddylai felly gael eu hasesu o dan Adran 21 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (y ddyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth). Dywedodd y Cynghorydd fod gwaith, addysg, hyfforddiant a hamdden yn cael eu crybwyll mewn rhai asesiadau ond nid mewn eraill. Dywedodd, ar y cyfan, ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt, fod gwaith/hyfforddiant wedi'i grybwyll pan oedd oedolion sy'n ofalwyr yn cael anhawster cadw eu swydd ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofal, neu am eu bod yn awyddus i ddechrau gweithio. Dywedodd mai gwaith papur Cyngor Sir y Fflint oedd yr unig un i ystyried hyn, gyda chwestiwn penodol am waith ac effaith gofalu. Yn yr un modd, cafodd gweithgareddau hamdden eu crybwyll, pan gyfeiriodd y gofalwr at hyn fel un o'u canlyniadau. Yn achos pobl ifanc, roedd addysg a hamdden yn faterion a godwyd ganddynt hwy eu hunain gan eu bod, yn amlwg, yn faterion pwysig iddynt.

Dywedodd y Cynghorydd nad oedd y ffaith nad oedd barn gofalwyr am waith, addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden yn cael ei chofnodi o reidrwydd yn golygu nad oedd gweithwyr yn meddwl am y cwestiynau hyn wrth gynnal yr asesiadau. Ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt, dywedodd fod gofalwyr wedi cael cyfle i dynnu sylw at faterion gwaith a hamdden pan oedd hynny'n bwysig iddynt. Dywedodd y Cynghorydd, gan fod hynny'n ofynnol yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Cod Rhan 3, y dylai gael sylw ym mhob asesiad, neu dylid nodi pam nad oedd yn berthnasol.

Amlygodd y Cynghorydd enghreifftiau o arferion da iawn o ran diwallu anghenion yn y maes hwn, gyda grantiau bychain/gwasanaethau yn cael eu defnyddio'n hyblyg a chreadigol iawn i ddiwallu anghenion gofalwyr. Er enghraifft, yng Nghyngor Sir y Fflint, cafodd gofalwr grant ar gyfer sied i gael gofod ar gyfer ei hobïau ei hun, cafodd un arall arian tuag at liniadur a chymorth i symud tuag at hunangyflogaeth a chafodd un arall grant ar gyfer nodwedd dŵr i'w helpu i ymlacio. Yng Nghyngor Sir Ceredigion, roedd gofalwr eisiau gadael yr unigolyn sy'n derbyn gofal am gyfnodau byr i gael mynd allan am dro a chafodd gwasanaeth eistedd ei ystyried i alluogi hyn.

Dywedodd y Cynghorydd, wrth ddogfennu anghenion gofalwyr ifanc, nad oedd eu hanghenion datblygiadol ac i ba raddau roedd yn briodol iddynt i ddarparu gofal, wedi ei ystyried yn 'uniongyrchol' ar ffurf cwestiwn. Fodd bynnag, roedd yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir y Fflint yn cynnwys ystod o gwestiynau i alluogi gweithiwr i edrych yn fanwl ar effaith eu rôl fel gofalwyr ar berson ifanc, ac felly rhoddwyd sylw penodol i hyn. Dywedodd y Cynghorydd hefyd ei bod yn deg i dybio, os oedd yr asesiad yn codi pryderon am allu person ifanc i barhau i ofalu, byddai unrhyw effaith ar eu datblygiad, neu ar eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain yn cael eu hystyried drwy gysylltu, neu atgyfeirio, at Wasanaethau Plant.

Dywed y Cod Rhan 3 os yw'r gofalwr yn oedolyn ifanc rhwng 16 a 25 oed, rhaid cynnal asesiad o unrhyw bontio yn awr neu yn y dyfodol y mae'r gofalwr yn debygol o'i wneud i addysg bellach neu uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant a rhaid rhoi sylw dyladwy i'r hyn mae'r gofalwr ifanc yn dymuno'i wneud. Dywedodd y Cynghorydd na allai roi sylw i hyn, naill ai am nad oedd yr asesiadau yn y sampl yn ymwneud â gofalwyr ifanc yn y grwpiau oedran hyn, neu am fod eu dyddiad geni wedi'i olygu.

Eglurodd y Cynghorydd fod Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu)(Cymru) 2015 ("y Rheoliadau") hefyd yn cynnwys nifer o ofynion. Dywed y Rheoliadau fod yn rhaid i'r awdurdod lleol gael unigolyn a enwir sy'n gyfrifol am gydlynu cynnal yr asesiad a dywedodd y Cynghorydd fod yr holl asesiadau a adolygwyd wedi'u cynnal gan aelod o staff a enwyd. Dywed y Rheoliadau hefyd fod yn rhaid i'r sawl sy'n cynnal yr asesiad feddu ar y sgiliau, gwybodaeth a chymhwystra i gynnal yr asesiad ac wedi cael hyfforddiant i gynnal asesiadau. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd modd rhoi sylw i hyn drwy adolygu'r asesiadau'n unig ond, yn gyffredinol, roedd y gweithwyr asesu wedi dangos ystod dda o wybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael i ofalwyr a dealltwriaeth dda, a sensitifrwydd tuag at effaith gofalu ar y gofalwyr.

Dywed y Rheoliadau fod yn rhaid i'r awdurdod lleol gadw cofnod ysgrifenedig o'r asesiad. Dywed y Cynghorydd fod hyn wedi'i wneud ym mhob achos. Fodd bynnag, yn achos Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, dywedodd nad oedd y deunydd, yn achos gofalwyr ifanc, yn ddigon manwl i allu penderfynu a oedd hyn wedi'i wneud yn ddigonol.

Dywed y Rheoliadau, os yw'n asesiad o anghenion oedolyn, rhaid i'r awdurdod lleol gynnig copi o'r cofnod i'r oedolyn a/neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran yr oedolyn. Os yw'n asesu anghenion plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol gynnig copi i'r plentyn, unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb rhiant (oni bai y byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i lesiant y plentyn) ac unrhyw unigolyn a awdurdodwyd i weithredu ar ran y plentyn. Dywedodd y Cynghorydd mai dim ond ychydig o enghreifftiau a welwyd o blith yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt lle'r oedd gweithwyr yn cofnodi eu bod wedi cynnig copi o'r asesiad ond, yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd yr asesiadau'n cynnwys gwybodaeth ar y mater. Dywedodd fod asesiadau gofalwyr ifanc a gwblhawyd gan Gyngor Sir y Fflint yn gofyn y cwestiwn a'i fod wedi'i ateb. Ym mhob achos arall, naill ai nid oedd y cwestiwn yn bresennol yn nogfennaeth yr asesiad neu mi oedd yn bresennol ond nad oedd, ar y cyfan, wedi'i ateb. Dywedodd y dylai gofalwyr gael cynnig copïau o'u hasesiad bob amser, ac y dylai'r cynnig a'r ymateb gael ei gofnodi.

Nododd y Cynghorydd nifer o bwyntiau ymarfer da ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r holl asesiadau. Eglurodd y dylai'r:

- Asesiad (ei ddyfnder a'i fanylion) fod yn gymesur i'r cais a / neu i'r anghenion sy'n cael eu hamlygu (Adran 19.6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a phwynt 16 o'r Cod Rhan 3).

- Dylai'r asesiad fod wedi'i seilio ar egwyddorion cyd-gynhyrchu lle mae ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer i gynllunio a darparu cymorth gyda'i gilydd (pwynt 18 o'r Cod Rhan 3).

- Dylai'r asesiad gynnwys y 5 elfen gyd-gysylltiedig sy'n dangos bod yr awdurdod lleol wedi ystyried amgylchiadau'r unigolyn yn eu cyfanrwydd (pwyntiau 63-65 o'r Cod Rhan 3). Y rhain yw:

  - Asesu ac ystyried amgylchiadau'r unigolyn

  - Rhoi sylw i'w canlyniadau personol

  - Asesu ac ystyried unrhyw rwystrau rhag cyflawni'r canlyniadau hynny

  - Asesu ac ystyried a rhoi sylw i unrhyw risgiau i'r unigolyn neu unigolion eraill os na chyflawnir y canlyniadau

  - Asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd yr unigolyn.

• Dylid gofyn i'r unigolyn a yw'n well ganddynt ddefnyddio Cymraeg ynteu Saesneg ar ddechrau'r broses (pwynt 52 o'r Cod Rhan 3).

Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn fodlon bod yr asesiadau a adolygwyd yn gymesur. Dywedodd fod gofalwyr yn gyson, yn yr asesiadau, yn cael siarad am a disgrifio eu sefyllfaoedd a bod cymorth wedyn yn cael ei drefnu. Dywedodd y Cynghorydd fod y 5 elfen a nodwyd uchod yn ymddangos yn nogfennaeth yr asesiadau mewn sawl ffurf/ diwyg a'i bod yn fodlon eu bod yn cael eu hystyried. Dywedodd fod iaith ac anghenion cyfathrebu ehangach yn cael eu hystyried yn briodol yn yr holl asesiadau a adolygwyd.

Dywedodd y Cynghorydd fod anghenion a cheisiadau gofalwyr yn rhai rhesymol iawn ac yn ymwneud ag addasiadau neu ddarpariaethau cymharol fychan ar y cyfan. Roedd yr ymatebion yn hyblyg, yn dangos dychymyg ac yn cyd-fynd yn dda â'r materion a godwyd gan ofalwyr. Dywedodd nad oedd wedi dod ar draws dim asesiadau lle nad oedd anghenion gofalwyr yn cael eu diwallu'n gymesur gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Cyfeiriodd, fodd bynnag, at ddiffyg unrhyw drefn ar y cyfan i gael adborth a barn gofalwyr am y broses asesu a'i chanlyniadau, a bod hynny'n peri iddi ofyn a fyddai gofalwyr yn cytuno bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol.

O ran eiriolaeth, dywedodd y Cynghorydd fod yr holl ddogfennaeth asesu'n gofyn a oedd angen eiriolaeth a bod y cwestiwn yn cael ei ateb. Fodd bynnag, nid oedd enghraifft o asesiad yn y sampl lle'r oedd angen eiriolaeth.

Gan wneud sylw ar gofnodi asesiadau gofalwyr ifanc yng Nghyngor Sir Ceredigion, dywedodd y Cynghorydd nad oedd y daenlen yn gwneud synnwyr. Dywedodd ei bod wedi tybio bod y daenlen yn grynodeb o brif bwyntiau'r asesiadau yn y sampl ac, felly, er y gallai weld bod gwybodaeth allweddol wedi'i chasglu, ni allai fynegi barn am ansawdd yr asesiadau, a oeddent yn briodol nac a oedd anghenion wedi'u hystyried yn fanwl ac a oedd anghenion wedi'u diwallu.

Yn ei sylwadau ar yr asesiadau gofalwr ifanc yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot, dywedodd y Cynghorydd yr ymddengys fod y ddogfennaeth a ddarparwyd yn adnodd defnyddiol dros ben fel rhan o'r asesiad yn gyffredinol, ond roedd yn gofyn ai rhan yn unig o ddogfennaeth yr asesiad ydoedd gan ei fod, ynddo'i hun, yn annigonol.

Daeth y Cynghorydd i'r casgliad fod yr arferion, y safonau a'r dulliau yn yr holl Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn debyg iawn, a bod hynny'n wir hefyd am y meysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Dywedodd fod yr asesiadau'n briodol a bod ystod o ddatrysiadau a gwasanaethau creadigol a hyblyg yn cael eu cynnig i gyflawni canlyniadau. Dywedodd fod gweithwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt wedi dangos gwybodaeth dda am y gwasanaethau sydd ar gael a sensitifrwydd tuag at brofiadau gofalwyr ac effaith gofalu arnynt. Nododd y Cynghorydd fod asesiadau gofalwyr ifanc Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos bod amser wedi'i neilltuo i ystyried a deall safbwyntiau gofalwyr ifanc drwy ddefnyddio dulliau priodol. Dywedodd fod gan ddull Cyngor Sir y Fflint, er yn anarferol am ei fod yn categoreiddio'r holl ddarpariaeth cymorth yn dilyn asesiad fel 'Cynllun cymorth' fantais am ei fod yn trefnu adolygiadau ar ôl yr asesiad, a bod hynny'n galluogi gofalwyr i ddweud a oedd canlyniadau wedi'u cyflawni ac i ba raddau.

Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd

Cafwyd tystiolaeth gan 43 o ofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a oedd wedi datgan eu bod yn barod i gyfrannu at yr ymchwiliad. Rhoddwyd eu manylion i'r ymchwiliad gan bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, Gofalwyr Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Cafwyd tystiolaeth profiad bywyd gan 19 o ofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a oedd wedi profi'r broses asesu anghenion. Ceir crynodebau o'u profiad bywyd unigol o geisio cael asesiad o angen, ac o asesu eu hanghenion, yn Atodiadau 6, 7, 8 a 9. Cafwyd copïau o'u hasesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a chymharwyd y rhain â'r fersiynau a gafwyd gan y gofalwyr.

Rydym yn sylweddoli bod y dystiolaeth profiad bywyd a gasglwyd yn y sampl bychan hwn o ofalwyr yn dangos eu safbwyntiau hwy'n unig o chwilio am gymorth ac o asesu eu hanghenion. Mae'n ddigon posibl nad yw'n gynrychiolaeth deg o brofiadau'r holl ofalwyr yr aseswyd ei hanghenion. Fodd bynnag, mae'n rhoi cipolwg inni o brofiadau gofalwyr ac mae'n amlygu arferion da, ar y cyd â thystiolaeth arall a gasglwyd, yn ogystal â dangos ym mha feysydd y gellid gwneud gwelliannau.

O'r dystiolaeth a gasglwyd, mae'n amlwg bod rhai gofalwyr o'r rhan fwyaf o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn nodi profiadau positif wrth i'w hanghenion gael eu hasesu. Roedd y gofalwyr hynny'n teimlo bod canlyniadau eu hasesiadau wedi arwain at gymorth digonol i'w helpu yn eu rôl fel gofalwyr. Roedd tystiolaeth o ofalwyr ym mhob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu helpu a bod eu llais wedi'i glywed gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynir. Roeddent hefyd yn canmol y staff a gwblhaodd eu hasesiadau.

Dywedodd y Cynghorydd fod anghenion gofalwyr, ar y cyfan, wedi'u diwallu a'u dogfennu'n briodol. Fel yn achos y sampl o 10% o asesiadau a adolygwyd, dywedodd y Cynghorydd ei bod yn ymddangos fod gan staff yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'r gwasanaethau a gomisiynir a oedd yn cydlynu'r gwaith o gynnal yr asesiad y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwystra i gynnal yr asesiadau.

Dywedodd y Cynghorydd, gan ei bod wedi nodi yn ei hadolygiad o'r sampl o 10% o asesiadau a gwblhawyd, roedd presenoldeb adolygiad 6-wythnos ar waith papur Sir y Fflint yn arfer da. Dywedodd y Cynghorydd fod hyn wedi arwain at ganlyniadau positif i Ofalwr I a'i fod yn adlewyrchiad da ar y gwasanaeth a ddarparwyd i Ofalwr I.

Dangosodd y dystiolaeth fod oedi cyn i anghenion rhai gofalwyr gael eu hasesu, er enghraifft, yn achos Gofalwr S a hefyd tystiolaeth nad oedd anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu nes eu bod yn argyfwng arnynt, fel yn achos Gofalwr O a Gofalwr L.

Dangosodd tystiolaeth nad oedd gofalwyr yn cael cynnig eiriolaeth bob amser. Dywedodd y Cynghorydd fod enghreifftiau lle'r oedd aelod o staff wedi penderfynu nad oedd angen eiriolaeth, yn hytrach na'u bod wedi gofyn y cwestiwn i'r gofalwr.

Dywedodd y Cynghorydd nad oedd y gofyniad i gynnwys yn yr asesiad i ba raddau yr oedd y gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal wedi'i ofyn yn benodol yn y profiadau bywyd a ystyriwyd, ond roedd yn bresennol yn y trafodaethau a gofnodwyd.

Dywedodd y Cynghorydd fod tystiolaeth ar y cyfan o'r canlyniadau roedd y gofalwr yn dymuno'u cyflawni a sut y gallai gwahanol wasanaethau helpu i'w cyflawni. Fodd bynnag, nododd y Cynghorydd eto y gallai fod yn anodd i ofalwyr fynegi eu hanghenion. Roedd y Cynghorydd o'r farn y gallai eiriolaeth helpu gofalwyr yn hyn o beth ac y gallai darparu enghreifftiau penodol o sut y cafodd gofalwyr eraill eu helpu a sut y gallai gwasanaethau gael eu defnyddio'n greadigol hefyd fod yn fuddiol, fel yr awgrymwyd gan Ofalwr N. Dywedodd Gofalwr O hefyd ei bod wedi cael trafferth mynegi eu hanghenion a bod ei phwynt ynglŷn â chael enghreifftiau yn berthnasol yma. Galwodd Gofalwr A am fwy o dryloywder o ran y cymorth sydd ar gael i ofalwyr.

Dangosodd y dystiolaeth hefyd mai 'mater o lwc' oedd hi os oedd gofalwr yn cael copi o'u hasesiad, ynteu a oedd yn rhaid iddynt ofyn am un. Nododd y Cynghorydd fod sawl gofalwr yn siomedig â chanlyniad eu hasesiad, yn teimlo nad oedd y canlyniadau wedi'u gwireddu, eu bod yn a sicr a oeddent wedi cael eu hasesu o gwbl, neu eu bod wedi cael trafferth fawr canfod eu ffordd i asesiad gofalwyr yn y lle cyntaf.

Dywedodd Gofalwr B pe bai hi'n gwybod ymlaen llaw ei bod yn mynd i gael ei hasesu y byddai wedi gallu paratoi ar gyfer y cyfarfod. Dywedodd

gofalwyr eraill hefyd nad oeddent yn sylweddoli bod eu hanghenion wedi cael eu hasesu. Dywedodd y Cynghorydd y byddai cyfathrebu gwell â'r gofalwyr yn ystod y broses asesu yn helpu, fel y byddai gofalwyr yn ymwybodol bod asesiad gofalwr yn digwydd, eu bod yn deall beth a allai ei gyflawni a sut yr oedd hynny'n cyd-fynd â'r holl brosesau asesu eraill. Awgrymodd y Cynghorydd y byddai llythyr syml ar ôl yr asesiad, a oedd yn amgáu'r asesiad ac yn nodi canlyniadau'r asesiad ac, yn bwysig iawn, yn egluro beth oedd trefniadau'r adolygiad (neu ddim) a sut y gallai gofalwyr gysylltu i ofyn am adolygiad neu ailasesiad, yn helpu llawer ar ofalwyr i weithio'u ffordd drwy ddrysfa'r broses asesu.

Dywedodd y Cynghorydd mai anaml yr oedd y gofyniad ar yr awdurdod lleol i gynnwys yr unigolyn sy'n derbyn gofal pan yn ymarferol, fel y nodwyd ganddi yn ei hadolygiad o'r sampl o 10% o asesiadau a gwblhawyd, yn digwydd ac nad oedd y rheswm am hynny'n eglur bob amser. Dywedodd y Cynghorydd ei fod yr un mor aneglur a oedd staff, ym mhob achos, yn cynnig cyfle i ofalwyr i ddweud a fyddai'n well ganddynt gael sgwrs breifat yn ychwanegol at, neu yn lle, un gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn bresennol.

Dywedodd y Cynghorydd fod y gofyniad i'r asesiad ystyried a oedd y gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio, ac a oeddent yn cael neu'n dymuno cael addysg neu hyfforddiant, neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, (yn unol â'r cyngor gwreiddiol) yn dueddol o amlygu'i hun mewn sgyrsiau pan yn berthnasol, yn hytrach na thrwy ofyn cwestiwn uniongyrchol.

Wrth adolygu'r sampl o 10% o asesiadau a gwblhawyd, nododd y Cynghorydd fod absenoldeb i raddau helaeth unrhyw system i gael adborth a barn gofalwyr ar y broses asesu a'i chanlyniadau, yn gwneud i rywun ofyn a fyddai gofalwyr yn cytuno fod eu hanghenion wedi cael ei diwallu'n briodol. Dywedodd y Cynghorydd fod achosion Gofalwr A a Gofalwr B yn dangos hyn. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, nid yw meysydd lle mae anghytundeb yn cael eu cofnodi oni bai bod yr asesiad yn mynd ymlaen i 'Rhan 2'. Dywedodd y Cynghorydd, er ei fod yn arfer da i ddarparu asesiad cymesur, byddai'n ddefnyddiol pe ceid cyfle wedi'i strwythuro i roi adborth, naill ai ar adeg yr asesiad neu ar adeg arall yn y dyfodol, yn hytrach na gorfod dechrau'r broses eto, o gofio'r straen a'r pwysau mae gofalwyr yn ei brofi a'r holl asesiadau a phrosesau eraill maent yn gorfod eu hwynebu.

Mae angen cyfathrebu a gwybodaeth dda ar ran eu hawdurdod lleol a'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynir ar ofalwyr. Dywedodd y Cynghorydd fod y sgwrs GCCh 'What Matters' yn ffordd gymesur o gyfeirio gofalwyr at gymorth heb iddynt orfod mynd drwy nifer o gamau, ond dywedodd y dylai pobl gael gwybod mai asesiad o anghenion gofalwyr oedd y sgwrs 'What Matters' ac, os oeddent yn canfod anghenion a oedd yn fwy cymhleth neu angen ystyriaeth fanylach, efallai gyda Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig, y gellid cynnig hynny. Nododd y Cynghorydd, oni bai bod gofalwyr yn gwybod bod modd cynnig rhywbeth arall o ran asesiad pellach, roeddent yn dueddol o ddweud eu bod yn fodlon.

Yn achos Gofalwr A, dywedodd y Cynghorydd nad oedd yn siŵr pam fod Gofalwr A wedi gadael yr asesiad gan gredu y byddai'n rhaid iddi dalu am yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda'i harian ei hun, gan y dylai'r gost hon gael ei chynnwys o fewn y gyllideb Taliadau Uniongyrchol a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau penodol ar gyflogi cynorthwyydd addysgu neu gynorthwyydd personol, gan fod yr unig gyfyngiad y gwyddai amdano'n ymwneud ag aelodau'r teulu. Dywedodd y Cynghorydd fod y penderfyniad hwn yn golygu na allai'r Taliadau Uniongyrchol a gynigiwyd i Ofalwr A gael eu defnyddio ac, o ganlyniad i'r prinder cyffredinol o gynorthwywyr personol, roedd hyn yn anffodus.

Yn achos Gofalwr B, dywedodd y Cynghorydd, er bod Gofalwr B wedi dweud nad oedd wedi cael dim help â materion a phryderon emosiynol ynglŷn â dyfodol ei phlentyn, nid oedd yr asesiad wedi rhoi cyfle i Ofalwr B i fod yn agored ynglŷn â'r agweddau emosiynol ar ei bywyd a'r rôl yr oedd yn teimlo yr oedd yn ei chyflawni. Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn teimlo y gallai'r asesiad fod wedi rhoi mwy o sylw i rai materion, yn fwyaf arbennig am fod Gofalwr B wedi dweud ei bod yn gorfod ymdopi â sawl peth ar y tro a diffyg cyfnodau seibiant o ganlyniad i brinder gofalwyr Shared Lives[4]. Dywedodd y Cynghorydd y gellid bod wedi edrych ar y ddau sylw hyn a'u datblygu ymhellach, er mwyn symud ymlaen at ddatrysiadau posibl. Dywedodd y Cynghorydd, er bod Gofalwr B wedi dweud bod y Taliadau Uniongyrchol a gafodd wedi cael eu "llyncu", nid oedd tystiolaeth fod Gofalwr B wedi codi'r pwynt hwn yn benodol yn ystod yr asesiad.

4 Cynllun yn y gymuned ar gyfer oedolion sydd angen gofal a chymorth, lle mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn cynnig rhannu eu bywydau cartref, teulu a chymunedol.

Dywedodd y Cynghorydd fod canlyniadau asesiad Gofalwr C wedi canolbwyntio ar y materion addysgol a godwyd a'r meini prawf ar gyfer y Tîm Plant Anabl. Dywedodd fod Gofalwr C wedi dangos lefelau uchel o straen a heriau o ran ei hiechyd corfforol ei hun a gofynion ei rôl; nid oedd yn ymddangos bod cymorth wedi'i drafod na'i godi'n uniongyrchol yn achos ei hanghenion hi ei hun. Unwaith eto, er bod Gofalwr C wedi cael cynnig Taliadau Uniongyrchol yn ddiweddarach, cafodd y defnydd o gynorthwywyr addysgu i'r perwyl hwn ei wrthod.

Dywedodd y Cynghorydd fod asesiad Gofalwr D yn un manwl, gyda gweithwyr wedi cymryd amser i ystyried a deall sefyllfa a theimladau Gofalwr D. Nododd y Cynghorydd hefyd fod yr anawsterau'n ymwneud yn fwy â'r oedi o ran darparu pecyn gofal i'r unigolyn sy'n derbyn gofal, a oedd yn debygol o fod oherwydd problem ag argaeledd pecynnau gofal, yn enwedig yn dilyn y pandemig, yn hytrach na dim yn ymwneud yn uniongyrchol ag asesiadau o anghenion gofalwyr.

Dywedodd y Cynghorydd yr ymddengys fod Gofalwr E wedi teimlo bod y gwahanol brosesau asesu'n ddryslyd a'i bod wedi cymryd amser iddi ganfod ei ffordd i asesiad. Dywedodd hefyd nad oedd yn amlwg ai ei hanghenion hi ynteu rhai'r unigolyn sy'n derbyn gofal oedd yn cael eu hasesu a'i bod yn teimlo mai anghenion ei gŵr oedd yn cael eu hasesu. Nododd y Cynghorydd fod sylwadau tebyg wedi'u gwneud gan nifer o ofalwyr a rannodd eu profiad bywyd â'r ymchwiliad. Dywedodd y Cynghorydd y gallai hyn awgrymu bod angen i awdurdodau lleol chwilio am ffyrdd o symleiddio'r llwybrau i ofalwyr gael asesiadau ac i wella gwybodaeth a phrosesau, fel bod gofalwyr yn cael mwy o help i ddeall y gydberthynas rhwng eu hasesiadau eu hunain a rhai'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

Eglurodd Gofalwr I nad oedd wedi sylweddoli mai'r sgwrs 'What Matters' oedd ei hasesiad o anghenion gofalwyr. Dywedodd y Cynghorydd fod hyn yn dangos yr angen i staff fod yn eglur iawn â phobl ar yr adeg hon. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd yn siŵr a hoffai Gofalwr I gael asesiad mwy trylwyr ac awgrymodd efallai y gallai asesiadau mwy cymhleth gael eu cynnal gan Weithiwr Cymdeithasol. Nododd y Cynghorydd fod Cyngor Sir y Fflint yn dweud bod pob gofalwyr yn cael cynnig hyn, ond nad oedd yn siŵr a oedd wedi'i gynnig yn achos Gofalwr I, nac a oedd wedi cael ei gynnig gan yr ymddengys o'r ddogfen asesu na allai achos yr unigolyn a oedd yn derbyn gofal fod wedi cael ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol ar yr adeg honno.

Nid oedd Gofalwr K ychwaith yn teimlo ei bod wedi cael asesiad. Nododd y Cynghorydd fod Gofalwr K wedi cael 3 awr o wasanaeth eistedd, ond y byddai gwasanaeth mwy hyblyg wedi bod yn addas ar ei chyfer. Nid oedd yn amlwg o'r dogfennau a oedd Gofalwr K wedi dod yn ôl at yr awdurdod lleol i ofyn am wasanaeth mwy hyblyg nac a oedd wedi cael ei hysbysu bod hyn yn rhywbeth y gallai ei wneud. Nododd y Cynghorydd fod hyn yn enghraifft o achos lle byddai eiriolydd wedi bod yn fuddiol i helpu Gofalwr K i gyfleu neu nodi beth allai fod o help iddi, gan yr ymddengys ei bod bron â derbyn nad oedd dim y gellid ei wneud i'w helpu. Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn siomedig nad oedd dim wedi'i wneud i ddarparu'r adweitheg a nodwyd yn yr asesiad i helpu Gofalwr K yn y rôl fel gofalwr.

Yn achos Gofalwr N, dywedodd y Cynghorydd nad oedd o reidrwydd yn cytuno bod y broses asesu'n troi o amgylch anghenion ei bartner gan fod yr asesiad yn adlewyrchu ei anghenion cymhleth ef a'i bartner, y gydberthynas rhyngddynt ac effaith ei rôl fel gofalwr. Dywedodd y Cynghorydd, fodd bynnag, os oedd Gofalwr N yn teimlo fel hyn, roedd yn rhaid gofyn a oedd gofalwyr yn cael dewis bob tro ynglŷn â phwy oedd yn bresennol pan oedd yr asesiad yn cael ei gynnal. Dywedodd y Cynghorydd, ar ôl adolygu'r sampl o 10% o asesiadau, ei bod wedi nodi nad yw'n ymddangos bod unigolyn sy'n derbyn gofal wedi cael eu cynnwys yn aml, ond ei bod yn bwysig cofio y bydd adegau pan fyddai'r gofalwr yn dymuno siarad â'r asesydd ar ei ben ei hun, yn hytrach, neu'n ychwanegol at y drafodaeth â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd y Cynghorydd er bod Gofalwr N wedi sôn am ddiffyg cymorth ariannol, ymddengys fod atgyfeiriad wedi bod at gyngor budd-daliadau a thalebau 'Take a Break', a oedd yn briodol. Nododd y Cynghorydd fod atgyfeiriad wedi'i anfon at yr 'Un pwynt Cyswllt" ("SPOC"), i helpu ag anghenion partner Gofalwr N, ond ni wyddys beth oedd y canlyniad ac nid oedd yn ymddangos bod Gofalwr N wedi teimlo bod hynny'n fuddiol. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd yn siŵr pam yr oedd Gofalwr N yn teimlo felly, gan y byddai atgyfeiriad am Daliadau Uniongyrchol wedi rhoi iddo'r cymorth ymarferol yr oedd yn gofyn amdano. Nododd Cynghorydd fod Gofalwr N wedi'i atgyfeirio at gwnsela hefyd, ond nid oedd yn siŵr a oedd hyn wedi digwydd, gan fod Gofalwr N yn disgwyl therapi a'i fod yn dweud nad oedd wedi'i gael.

Dywedodd y Cynghorydd y byddai wedi helpu Gofalwr O pe bai hi a'i gŵr wedi cael eu helpu i fynd allan a mynychu grwpiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau, a fyddai wedi bod o fudd i Ofalwr O ac i'w gŵr. Dywedodd y Cynghorydd nad

oedd yn amlwg pam na chafodd Taliadau Uniongyrchol eu hystyried ar gyfer hyn. Nododd y Cynghorydd fod yr asesiad o anghenion Gofalwr O wedi cydnabod bod y cyfleoedd am weithgareddau i'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn gyfyngedig, ond nid oedd y pennawd 'Bylchau yn y Gwasanaeth' wedi'i gwblhau.

Dywedodd y Cynghorydd fod asesiad Gofalwr R yn fanwl a thrylwyr ac roedd yn ymddangos fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi gwneud gwaith da i ganfod beth oedd anghenion y gofalwr, i ba raddau nad oedd Gofalwr R ei hun wedi sylweddoli beth oedd ei hanghenion cyn iddi gael yr asesiad. Nododd y Cynghorydd ei bod yn amlwg fod Gofalwr R wedi gorfod brwydro i gael ei hasesiad o anghenion gofalwyr, am ei bod yn byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ble'r oedd yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn byw. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd amheuaeth mai'r awdurdod lleol ble mae'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn byw yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am yr asesiad o'r gofalwr (Adran 24 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant). Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn siomedig gweld bod Gofalwr R wedi gorfod delio â'r camgymeriad yr oedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ei wneud yn rheolaidd yn hyn o beth.

Enghreifftiau o arferion da a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad

Mae'n bwysig bod yr arferion da a ganfuwyd yn ystod fy ymchwiliad yn cael eu rhannu â phob awdurdod lleol yng Nghymru, i alluogi hunan-fyfyrio a gwella'r gwasanaeth yn gyffredinol. Rhannodd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynir nifer o enghreifftiau o adborth positif i'w gwasanaethau â'r ymchwiliad. Roedd yn amlwg o'r profiadau bywyd a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn fod rhai gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu helpu gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a darparwyr gwasanaethau a gomisiynir drwy'r gwasanaethau a ddarparwyd i gyflawni'r canlyniadau yr oeddent yn eu dymuno i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos yr effaith y gall y cymorth a ddarparwyd i ofalwyr, ar ôl i'w hanghenion gael eu canfod a'u hasesu, ei gael ar eu llesiant a'u rôl fel gofalwr. Mae gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu helpu i ofalu am eu llesiant eu hunain yn fwy tebygol o allu a bod yn barod i barhau yn eu rôl fel gofalwr, a thrwy hynny leihau'r baich ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roeddwn yn falch o nodi barn y Cynghorydd, yn seiliedig ar y sampl o asesiadau a gwblhawyd a phrofiadau bywyd a adolygwyd, fod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a'u darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn cynnal asesiadau cymesur gydag ystod o ddatrysiadau creadigol a hyblyg yn cael eu cynnig i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd gan y gofalwr. Rwyf wedi gweld canmoliaeth gan y gofalwyr i'r cymorth a roddwyd gan y staff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Rwyf hefyd wedi gweld canmoliaeth gan staff Gwaith Cymdeithasol sy'n gofyn am gyngor ac arweiniad gan dimau gofalwyr ymroddedig. Ymddengys o'r asesiadau a adolygwyd fod staff sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn wybodus, yn deall, ac yn ymwybodol o effaith gofalu ar fywydau gofalwyr.

Rwyf wedi gweld enghreifftiau o ofalwyr yn cael help drwy gynlluniau cyllid grant a defnydd arloesol a chreadigol o grantiau i hybu llesiant gofalwyr unigol. Yn Sir y Fflint, mae cynllun 'Pontio'r Bwlch' NEWCIS hefyd yn helpu gofalwyr i gael help gan aelodau'r teulu. Mae'n beth positif bod staff NEWCIS yn helpu gofalwyr i ymgeisio am Daliadau Uniongyrchol, yn eu helpu drwy'r broses ac yn cysylltu â staff yr awdurdod lleol.

Nodaf y ganmoliaeth a roddwyd i'r ffurflenni asesu a gwblhawyd gan NEWCIS ar gyfer Cyngor Sir y Fflint a oedd yn dangos arferion da ac a ddylai gael eu hystyried gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn enwedig yn achos:

- Y canlyniadau yr hoffai gofalwr ifanc eu gweld yn cael eu cofnodi ochr yn ochr â rhai'r unigolyn/ unigolion â chyfrifoldeb rhiant, a oedd yn effeithiol iawn i sicrhau bod cwestiynau allweddol yn cael sylw yn ystod asesiad.

- Yr adolygiad 6/12 wythnos (gofyniad contract lle cytunir ar gynllun cymorth) ar waith papur i alluogi gweithwyr i wirio â'r gofalwyr a yw eu canlyniadau wedi'u cyflawni ac i ba raddau.

- Dylai cwestiwn penodol sy'n ystyried dymuniad y gofalwr i weithio, neu gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu hamdden gael ei ystyried ym mhob asesiad o anghenion gofalwyr neu dylid cynnwys nodyn sy'n egluro pam nad yw wedi'i ofyn.

Rwyf wedi nodi bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir Ceredigion Dimau Gofalwyr mewnol, pwrpasol sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr gyda gofalwyr lle nad yw'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn hysbys i Wasanaethau Cymdeithasol. Mae'r timau hyn hefyd yn mynychu/trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr ac yn cysylltu ag ysgolion a cholegau i ganfod gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Mae'n braf nodi hefyd bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi penodi staff gofalwyr pwrpasol sydd yn y broses o adolygu ei brosesau cyfredol i helpu gofalwyr, ac mae eisoes wedi nodi sawl cyfle i wneud gwelliannau, gan gynnwys yr angen i ailddatblygu ei gronfa ddata cofnodi i sicrhau bod modd cofnodi anghenion gofalwyr ac y bydd yn gallu adrodd, yn y dyfodol, ar faint o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n arwain at gynllun cymorth. Mae hunan-fyfyrio a pharodrwydd i adolygu a gwella prosesau'n allweddol i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr i'w galluogi i barhau yn eu rôl fel gofalwyr. Mae'n galonogol hefyd gweld bod Cyngor Sir Ceredigion yn edrych ar ddefnyddio a datblygu gwasanaethau gofal â chymorth technoleg a all, yn y man, helpu â llesiant gofalwyr.

Rwyf wedi gweld enghreifftiau o'r adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i ofalwyr sy'n disgrifio eu hawliau fel gofalwyr, gan gynnwys Pecynnau Gwybodaeth i Ofalwr, cylchgronau, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr. Rwyf hefyd wedi nodi llyfryn Llywodraeth Cymru '[Deall eich hawliau fel gofalwr]', sy'n disgrifio hawliau gofalwyr.

Rwyf yn falch bod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Llywodraeth Cymru eisoes wedi ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i roi gwelliannau ar waith mewn gwasanaethau i ofalwr. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod rhwydwaith Cymru Gyfan wedi'i sefydlu, y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Gofalwyr Cymru Gyfan (COLIN), ac mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys hyrwyddo asesiadau o anghenion gofalwyr, y cyfle i drafod ac ymgymryd â mentrau datblygu ar y cyd a chasglu a lledaenu dysgu ac arferion da drwy weithio rhanbarthol. Rwyf yn falch o nodi bod pob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt yn cyfrannu at y rhwydwaith hwn ac mi hoffwn annog unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, neu eu darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, nad ydynt yn ymwneud â'r rhwydwaith i edrych ar y buddiannau a fyddai'n dod i wasanaethau gofalwr yn lleol yn sgil hynny.

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, gwelwyd yr arferion da canlynol hefyd:

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn mabwysiadu dull 'dim drws anghywir', a waeth pa wasanaeth sydd mewn cysylltiad â gofalwr, mi fyddant yn cael eu cyfeirio at y Tîm Gofalwyr a byddant yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw cofrestr gofalwyr a 'Llwybr Atgyfeirio Gofalwyr', sy'n dangos cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd. Ar ôl cofrestru, bydd manylion y gofalwr yn cael eu trosglwyddo i'r adrannau perthnasol i ddarparu gwybodaeth a chymorth i'r gofalwr.

- Eto yng Ngheredigion, mae'r holl staff o fewn y rhaglen 'Llesiant Gydol Oes', gan gynnwys staff tai, yn gorfod cwblhau modiwl hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud â gofalwyr i sicrhau eu bod yn gallu adnabod gofalwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac yn gallu egluro i ofalwyr sut y gallant gael asesiad o'u hanghenion.

- Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal archwiliad o asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblheir gan NEWCIS, Adferiad a'r Cyngor bob 8 wythnos, gydag unrhyw ddysgu ac arferion da a welir yn cael eu rhannu ag ymarferwyr.

- Eto yn Sir y Fflint, mae NEWCIS yn gofyn i ofalwyr gwblhau holiadur cyn-asesu i alluogi gofalwyr i feddwl am yr hyn yr hoffent ei ddweud yn yr asesiad.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau wrth asesu anghenion gofalwyr ifanc i helpu i edrych ar eu rôl fel gofalwyr.

- Yn Sir y Fflint, mae NEWCIS yn cynnig grŵp cymorth i oedolion ifanc sy'n ofalwyr i helpu gofalwyr ifanc i symud ymlaen i wasanaethau oedolion.

- Eto yn Sir y Fflint, mae NEWCIS yn darparu grwpiau cymorth yn ystod y dydd, min nos a phenwythnosau, sy'n arbennig o fuddiol i ofalwyr sy'n gweithio ac na fyddai'n gallu mynd i grwpiau cymorth yn ystod y dydd.

Sylwadau ar yr adroddiad drafft

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod, ers rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith yn 2016, wedi gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r agenda gofalwyr a bod ei wasanaeth ar gyfer gofalwyr yn benodol wedi tyfu i ddiwallu'r angen yn lleol. Dywedodd fod hyn i'w weld yn nifer y gofalwyr sy'n dewis cael diweddariadau rheolaidd drwy gyfryngau cymdeithasol a'i gylchlythyr rheolaidd. Dywedodd y Cyngor fod y nifer sy'n bresennol mewn digwyddiadau ar gyfer gofalwr yn arwydd o'i ymgysylltiad a'i gynwysoldeb. Dywedodd ei fod yn ymgynghori â gofalwyr yn barhaus ynglŷn â sut mae'n cynllunio ei wasanaethau a'i fod wedi tynnu sylw at hawliau gofalwyr i gael asesiad drwy nifer o ddulliau gwahanol.

Dywedodd y Cyngor fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Dywedodd fod niferoedd helaeth o staff wedi gadael y sector gofal ers hynny a bod yr argyfwng gwaith cymdeithasol presennol wedi achosi diffyg sylweddol mewn adnoddau staffio. Dywedodd y Cyngor fod hyn, ar adegau, wedi effeithio ar barhad gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau sefydledig ac anallu i gomisiynu gwasanaethau i gyflawni anghenion cymwys sydd newydd eu hasesu.

Dywedodd y Cyngor fod hyfforddiant ar gael ar gyfer yr holl staff GCCh ond, ar yr adeg y cawsant eu harolygu fel rhan o'r ymchwiliad hwn, roedd trosiant staff uchel ac roedd diffyg cefndir yn yr ymatebion a dderbyniwyd ganddynt ac nid oeddent yn adlewyrchiad cywir o hyfforddiant staff yn gyffredinol.

Dywedodd y Cyngor, er ei fod wedi ymgynghori â gofalwyr, a oedd yn hysbysu'r awdurdod mai eu hoffter oedd cael cymorth anffurfiol nad oedd yn ddibynnol ar asesiad statudol i gael gafael arno, nid dyma'r rheswm pam na fu dim cynlluniau cymorth i ofalwyr yn ystod cyfnod yr ymchwiliad. Dywedodd mai'r prif reswm oedd am fod unrhyw ddarpariaeth seibiant i'r gofalwr wedi'i briodoli a'i gofnodi ar gynllun gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

Dywedodd y Cyngor fod y Taliadau Uniongyrchol y cyfeiriodd Gofalwr A, Gofalwr B a Gofalwr C atynt wedi'u dyfarnu i'r unigolyn sy'n derbyn

gofal, yn hytrach nag i'r gofalwyr eu hunain. Dywedodd y Cyngor fod argyfwng recriwtio gweithlu gofal cymdeithasol cenedlaethol a oedd yn effeithio ar argaeledd gweithwyr i ddarparu cymorth trwy Daliadau Uniongyrchol, a oedd yn gysylltiedig â chais y Cyngor i rieni i beidio recriwtio gweithwyr cymorth o ysgol eu plentyn, oherwydd y gwrthdrawiad mewn buddiannau posibl a'r perygl o amharu ar ffiniau i'r plentyn.

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nad oedd ganddo gofnod o unrhyw gwynion am hawliau gofalwyr nac asesiadau gofalwyr.

Cyngor Sir Ceredigion

Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod gofalwyr yn cael cynnig asesiad yn ystod ei broses 'didoli drws ffrynt', gydag eglurhad clir yn cael ei roi o'r hyn mae'n ei olygu. Dywedodd y Cyngor fod gofalwyr yn cael cynnig pecyn gwybodaeth gofalwyr, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd y Cyngor fod gofalwyr hefyd yn cael cynnig atgyfeiriad at ei Wasanaeth Cymorth i Ofalwyr, a oedd yn rhoi pwyslais ar helpu gofalwyr a chynnig gwybodaeth, cyngor, cymorth emosiynol a mynediad at hyfforddiant a grwpiau llesiant. Dywedodd y Cyngor fod gofalwyr hefyd yn cael gwybodaeth am Gofalwyr Ceredigion Carers ar help i newid gofalwyr. Dywedodd y gellid darparu cymorth i newid gofalwr am y tymor byr, cyn cynnal asesiad.

Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod yr holl Daliadau Uniongyrchol yn cael eu hwyluso drwy gyfrif a reolir. Dywedodd fod Taliadau Uniongyrchol, y broses a'r gofynion, yn cael eu trafod yn ystod y broses asesu. Dywedodd y Cyngor y gallai gofalwyr, ar yr adeg honno, ofyn i'r tîm Taliadau Uniongyrchol am gyngor ac arweiniad ychwanegol i wneud eu penderfyniad. Dywedodd y Cyngor pe bai'r gofalwr yn penderfynu ar Daliad Uniongyrchol, y byddai Cynghorydd Byw'n Annibynnol yn cael ei ddynodi ar eu cyfer i ddarparu cymorth parhaus ac i ddweud wrthynt pan fyddai'n amser cynnal adolygiad.

Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod Gofalwyr Ceredigion Carers wedi eu hailgomisiynu'n ddiweddar i ddarparu cymorth i oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc yn ei ardal. Dywedodd y Cyngor fod Gofalwyr Ceredigion Carers yn gweithio'n ôl manyleb gwasanaeth newydd a oedd yn cynnwys yr angen i rannu asesiadau, i ddibenion sicrhau ansawdd. Dywedodd y Cyngor ei fod yn gweithio â Gofalwyr Ceredigion Carers i fabwysiadu hyn fel rhan o'i gyfarfodydd monitro chwarterol.

Dywedodd y Cyngor fod dros 2200 o ofalwyr di-dâl wedi cofrestru â'i Wasanaeth Gwybodaeth erbyn

diwedd mis Mawrth 2024, a oedd yn gynnydd o 35% o'i gymharu ag Ebrill 2023, pan ddechreuodd yr ymchwiliad. Dywedodd fod hyn yn dangos bod gofalwyr di-dâl yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion ei fod, yn ystod yr ymchwiliad hwn, wedi penodi Swyddog Sicrhau Ansawdd, wedi gweithredu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac wedi ail-ddylunio a gweithredu asesiad newydd sy'n briodol i blant. Dywedodd y Cyngor ei fod, yn 2023-2024, wedi cwblhau 436 o asesiadau gofalwyr, o'i gymharu â 231 yn 2022-2023.

Gofalwyr Ceredigion Carers

Dywedodd Gofalwyr Ceredigion Carers fod y daenlen a ddarparwyd i'r ymchwiliad yn adroddiad a godwyd o'i gronfa ddata, lle'r oedd yn cadw asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc. Dywedodd nad oedd ar hyn o bryd yn treulio llawer iawn o amser yn cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc am ei fod yn cwblhau asesiadau cymesur drwy sgyrsiau. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion Carers fod hyn yn rhan o'r broses o ddod i adnabod y gofalwr ifanc a'u teulu, gan feithrin perthynas, deall eu cryfderau, yr hyn sy'n eu poeni ac i ddeall beth sy'n bwysig iddynt. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion Carers yr hoffai barhau i wneud hyn, yn hytrach na chynnal asesiadau ffurfiol. Mae hyn am ei fod yn clywed gan sefydliadau eraill, ar ffurf anecdotau, eu bod yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser ar asesiadau o anghenion gofalwyr.

Cyngor Sir y Fflint

Dywedodd Cyngor Sir y Fflint, o gymharu â chyn y pandemig COVID-19, fod gan y gofalwyr y mae'n eu cefnogi yn gyson sefyllfaoedd llawer mwy cymhleth a heriol. Dywedodd fod y cymorth sydd ei angen i gynnal gofalwyr wedi dod yn llawer mwy sylweddol a dwys ac, hefyd, bod nifer y gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn cynyddu'n sylweddol, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dywedodd y Cyngor fod amseroedd aros hir y GIG yn rhoi pwysau ar y Cyngor i gau'r bwlch yn y ddarpariaeth gofal i ofalwyr. Dywedodd y Cyngor fod niferoedd helaeth o staff wedi gadael y sector gofal ers y pandemig, gan adael diffyg mewn adnoddau staffio a fyddai wedi cefnogi gofalwyr yn y gorffennol i ddarparu cyfleoedd i gael seibiant. Dywedodd y Cyngor fod y galw am wasanaethau gofalwyr wedi parhau i dyfu ar ôl y pandemig. Dywedodd ei fod wedi ceisio datblygu ei 'Strategaeth Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr' i gefnogi gofalwyr mewn ffordd fwy hyblyg, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn.

Dywedodd Cyngor Sir y Fflint ei fod yn cadw cofrestr bwrpasol o ofalwyr a bod ei lwybr gofalwyr yn deillio o'i borth gofalwyr 'siop un stop', sy'n cydlynu gwasanaethau i ofalwyr, nid yn unig o fewn yr awdurdod lleol a gwasanaethau iechyd, ond hefyd ei bartneriaid trydydd sector.

Dywedodd Cyngor Sir y Fflint ei fod wedi penderfynu comisiynu asesiadau o anghenion gofalwyr gan y trydydd sector, gan fod gofalwyr wedi datgan yn y gorffennol nad oeddent yn dymuno mynd drwy Wasanaethau Cymdeithasol a'u bod yn gwerthfawrogi cael sefydliad annibynnol i'w helpu. Dywedodd y Cyngor fod gofalwyr yn Sir y Fflint yn gallu manteisio ar ddefnyddio gwasanaethau drwy Wasanaethau Cymdeithasol a/neu'r trydydd sector, a'i fod o'r farn bod hynny'n ymarfer da.

Dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod ganddo gofrestr bwrpasol o ofalwyr ac fod ei lwybr gofalwyr yn deillio o'i borth gofalwyr 'siop un stop' sy'n cydlynu gwasanaethau gofalwyr ar draws yr awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd a'i bartneriaid trydydd sector. Dywedodd y Cyngor fod ganddo berthynas waith glos iawn â NEWCIS sy'n eiriol ar ran gofalwyr, hawliau gofalwyr a gwasanaethau gofalwyr yn Sir y Fflint. Dywedodd fod NEWCIS yn mynychu ac yn trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr. Dywedodd y Cyngor fod NEWCIS yn cysylltu ag ysgolion a cholegau i ganfod gofalwyr ifanc a bod ffrwd waith yn weithredol i gyrraedd pob ysgol yn Sir y Fflint. Dywedodd y Cyngor ei fod yn talu NEWCIS i gynnal swydd hwylusydd rhyddhau o ysbytai yn ogystal â hysbysfyrddau a thaflenni, er nad oes ysbyty acíwt yn y sir. Dywedodd fod yr Hwylusydd Rhyddhau o'r Ysbyty yn weithredol yn yr ysbytai acíwt a chymunedol lleol yn ddyddiol, gan ymweld â wardiau, siarad â staff a gofalwyr yn uniongyrchol i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael a manteision asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd eu bod hefyd darparu cefnogaeth gyda chyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr gyda meddygon teulu a fferyllfeydd. Dywedodd y Cyngor ei fod yn comisiynu NEWCIS i ddarparu swydd Cymorth Arbenigol Gofal lechyd Parhaus ("CIC"), sy'n unigryw i'w awdurdod. Dywedodd mai nod y swydd oedd darparu cefnogaeth i ofalwyr sy'n cefnogi unigolion gyda salwch cymhleth, cronig neu derfynol gyda chyfnod o gefnogaeth ddwys. Dywedodd fod NEWCIS hefyd wedi'i gomisiynu i helpu â chyfathrebu ac i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ymhlith meddygon teulu a fferyllfeydd.

Dywedodd y Cyngor fod rhai o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn o ran y ffurflen asesu anghenion gofalwyr wedi'u gweithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ganlyniad i'w archwiliad o ffeiliau achosion.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot y bu cynnydd sydyn, ers pandemig COVID-19, o ran y ceisiadau am gymorth gan ofalwyr. Dywedodd ei fod wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau am gymorth gan oedolion o oedran gweithio, sy'n adlewyrchu'r nifer cynyddol o bobl sy'n byw ag anabledd yn ei ardal.

Dywedodd y Cyngor fod ailddechrau busnes fel arfer wedi cymryd amser ar ôl y pandemig a bod hyn wedi arwain at ailstrwythuro'r gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys swyddogion datblygu gofalwyr sy'n cyd-fynd â thimau gwaith cymdeithasol, gan arwain at gynnig cryfach o gymorth a chefnogaeth gynnar, a ffocws ar anghenion y gofalwr.

Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi dechrau cryfhau a gwella cymorth i ofalwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot cyn i'r ymchwiliad hwn gychwyn. Dywedodd ei fod, er enghraifft, wedi diweddaru'r ffurflen asesu anghenion gofalwyr a'r llythyrau ategol. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd yn symud rhwng systemau data Gwasanaethau Cymdeithasol, am nad oedd ei system bresennol yn gallu adrodd ar wybodaeth allweddol. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, er ei fod yn cofnodi asesiadau gofalwyr ifanc, ni allai ddarparu asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc i'r ymchwiliad, oherwydd cyfyngiadau'r systemau data. Dywedodd y Cyngor fod hyn yn cael ei ddatrys gyda system rheoli achosion newydd 'MOSAIC'.

Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod y sawl sy'n cysylltu â'i Dîm SPOC ac sy'n ofalwr yn cael eu hysbysu o'u hawl i gael, ac maent yn cael cynnig, asesiad. Dywedodd eu bod hefyd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Gofalwyr.

Dywedodd y Cyngor fod Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno adroddiadau monitro contractau yn unol â gofynion y contract. Dywedodd fod adolygiadau contract yn cael eu cynnal yn fisol, a'u bod yn cynnwys uwch staff o'r Gwasanaeth Gofalwyr, ei brif swyddog o'r awdurdod lleol, y Prif Swyddog sydd â chyfrifoldeb am ofalwyr a'r prif swyddog Comisiynu. Dywedodd y Cyngor, pan oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu dychwelyd i'r Gwasanaeth Gofalwyr,

roeddent yn cael eu cymeradwyo gan Weithiwr Cymdeithasol, sy'n fodd o wirio ansawdd. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cynnal archwiliadau o asesiadau o anghenion gofalwyr yn flaenorol, gyda'r olaf yn cael ei gwblhau yn 2022, ond eu bod wedi'u gohirio, gan aros am ganlyniad adolygiad gwasanaeth.

Dywedodd y Cyngor ei fod yn gweithio â Meddygon Teulu i ganfod gofalwyr yn gynnar, i alluogi ymyriadau a gwaith ataliol prydlon. Dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud gyda gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd i gefnogi a chryfhau llwybrau integredig gofalwyr. Dywedodd fod y Cyngor, yn ystod yr ymchwiliad, wedi cyfrannu at brosiect ymchwil y Sefydliad Iechyd "Can you tell we care?", a bod ei adroddiad wedi canfod fod gofalwyr yn fwy tebygol o gysylltu â gwasanaethau gofal sylfaenol, yn y lle cyntaf.

Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod ei holl Weithiwr Cymdeithasol yn medru cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr ond, gan fod hyn wedi'i gomisiynu i Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, nid oedd ei staff yn cwblhau asesiadau'n aml. Dywedodd mai dyma oedd i'w gyfrif am yr ymatebion i'r arolwg staff lle'r oedd rhai aelodau staff wedi nodi nad oeddent yn cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr.

O ran hyfforddiant, dywedodd y Cyngor fod anghenion hyfforddiant ei staff yn cael eu canfod fel rhan o'r broses goruchwylio staff. Dywedodd fod gan yr holl staff fynediad at, a'u bod yn cael eu hannog i fanteisio ar, adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar weithio â gofalwyr, sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Llywodraeth Cymru

Dywedodd Llywodraeth Cymru fod adroddiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("ADSS Cymru") yn amlygu meysydd tebyg y mae angen eu gwella. Dywedodd ei bod, o ganlyniad, wedi sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen fel rhan o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ("MAG") ar Ofalwyr Di-dâl. Dywedodd fod y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei oruchwylio gan y MAG a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y grŵp hwn, sy'n cynnwys uwch reolwyr o ADSS, iechyd, sefydliadau cenedlaethol gofalwyr a gofalwyr di-dâl, wedi holi pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a'u darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, a oedd angen hunanasesu eu perfformiad o ran GCCh ac asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd ei fod yn gofyn i ymatebwyr nodi rhwystrau ac arferion da a'i fod yn dadansoddi canlyniadau'r arolwg. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod

yn gweithio â byrddau iechyd i gynnal arolwg gyda phwyslais ar wybodaeth a chyngor cynnar i ofalwyr gan staff gofal iechyd a chyfeirio priodol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio hefyd â Gofalwyr Cymru i ddysgu o'i harolwg yn 2024 'Dilyn y Ddeddf' sy'n cyflwyno barn gofalwyr ar eu profiadau o Wybodaeth, Cyngor a Chymorth ac asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd ei bod hefyd yn trefnu cyfarfodydd â gofalwyr i gael trafodaethau llawnach ar eu profiadau i ganfod arferion gorau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.

Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sgil ei gwaith arolygu ei hun yn ymwybodol nad oedd gwasanaethau gofalwyr yn gyson ymhlith awdurdodau lleol o ran dyluniad a gweithrediad. Dywedodd pan fydd yr wybodaeth a gasglwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i dwyn ynghyd a'i dadansoddi, y byddai'n cytuno ar y camau nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at rai camau roedd yn eu cymryd eisoes yn achos gofalwyr:

- Mae'n annog canfod a hunanadnabod gofalwyr fel blaenoriaeth gyntaf ei Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Dywedodd ei bod yn ariannu Gofalwyr Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ac i hyrwyddo gwerth hunanadnabod. Dywedodd ei bod hefyd yn ariannu'r sefydliadau hyn yn wneud gwaith 'Ymwybyddiaeth o Ofalwr', gan gynnwys hyfforddi staff gofal cymdeithasol a gofal iechyd ar hawliau gofalwyr a'r heriau mae gofalwyr yn eu hwynebu. Mae'n helpu'r sefydliadau hyn i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr, i hyrwyddo gwerth hunanadnabod a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

- Roedd nifer sylweddol o ofalwyr a oedd yn anhysbys cyn hynny wedi manteisio ar Gronfa Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr sy'n dangos gwerth y cynlluniau i helpu gofalwyr i hunanadnabod a chael gwybodaeth a chymorth.

- Mae wedi cyhoeddi Siarter gofalwyr di-dâl sy'n disgrifio hawliau gofalwyr.

- Mae'n ariannu Age Cymru i nodi a diwallu anghenion gofalwyr hŷn yn well, gan gynnwys gwaith gyda phractisau meddygon teulu.

- Mae wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc, sy'n cael ei redeg gan Blant yng Nghymru, i sicrhau bod gan ofalwyr ifanc lais ar lefel genedlaethol drwy gynrychiolaeth ar Fwrdd Cynghori'r Gweinidog.

- Mae'n gweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector i sicrhau gwell ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, ac i annog mwy i fanteisio ar y 'cerdyn adnabod' gofalwyr ifanc. Dywedodd eu bod yn diweddaru adnoddau am ofalwyr ifanc ar gyfer athrawon a'u bod yn trefnu ymgyrch hyrwyddo ar gyfer tymor yr hydref.

- Mae hefyd, drwy'r MAG, yn datblygu trefniadau newydd i gasglu data ar ofalwr di-dâl gan awdurdodau lleol yn flynyddol sy'n debygol o ganolbwyntio ar ofalwyr sy'n cael asesiad. Bydd hyn yn cynnwys ystod o ddata demograffig a chydraddoldeb a ddarparwyd i gyrraedd prosesau a safonau casglu data cyson.

- Mae'n cydweithio ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ganfod a hybu arferion gorau o ran GCCh ac asesiadau o anghenion gofalwyr.

Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn yn feysydd gwaith sefydledig i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a'r MAG. Dywedodd y bydd yn adolygu ei strategaeth genedlaethol gyfredol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bydd yn sicrhau bod y meysydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth.

Dadansoddiad a Chasgliadau

Fel yr amlinellwyd uchod, mae rhywfaint o arfer da wedi'i nodi ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt mewn perthynas â gweinyddu asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n galonogol, yn enwedig mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r asesiadau a gwblhawyd a adolygwyd gan fy ymchwiliad.

Rwyf yn cydnabod ac yn derbyn bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau gofalwyr awdurdodau lleol ac ar y cymorth sydd ar gael i ofalwyr. Rwyf yn cydnabod bod adfer yn dilyn y pandemig yn parhau ac rwyf yn deall y bydd yn cymryd amser i fynd i'r afael yn llawn ag effeithiau tymor hwy y pandemig ar ofalwyr a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Wrth ddod i'm casgliadau, rwyf wedi ystyried y cyd-destun hwn a'r pwysau ar wasanaethau.

Fy rôl o dan y Ddeddf yw tynnu sylw at unrhyw dystiolaeth o ddiffygion gweinyddol gyda'r bwriad o sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru . Wrth ddadansoddi'r dystiolaeth a dod i gasgliadau, rwyf wedi ystyried y cyngor a gefais gan, ac rwyf yn ei dderbyn y Cynghorydd. Fodd bynnag, fy nghasgliadau i ydynt.

a) A yw'r awdurdodau lleol yr ymchwilir iddynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015.

Pan fydd anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu, ac eithrio'r asesiadau gofalwyr ifanc yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, mae'r dystiolaeth yn dangos bod gofalwyr yn cael cyfle i rannu eu profiadau fel gofalwyr ac i nodi eu hanghenion am gymorth, gan arwain at asesiadau effeithiol sy'n dangos a oedd y gofalwr angen cymorth.

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, lle'r ymddengys fod angen cymorth ar y gofalwr, i asesu a oes angen cymorth ar y gofalwr (neu a yw'n debygol y bydd ei angen yn y dyfodol), ac os oes ei angen ar y gofalwr, beth yw'r anghenion rheini (neu beth fyddant yn debygol o fod yn y dyfodol).

Mae'n hollol dderbyniol i rannu'r asesiad yn 2 ran, i gwblhau asesiad cymesur yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fodd bynnag, mae angen i'r broses fod yn eglur i ofalwyr yn unol ag Egwyddor 3 o'r Egwyddorion

Gweinyddu Da. Mae hyn yn berthnasol dros ben pan nad yw gwasanaethau sydd ar gael gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir, neu Dimau Gofalwyr pwrpasol o fewn yr Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt yn diwallu anghenion y gofalwr, neu fod eu hanghenion yn fwy na'r cymorth sydd ar gael gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir. Mae hyn yn arbennig o wir os nad yw'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn hysbys i Wasanaethau Cymdeithasol. Gall unrhyw fethiant i ddarparu gwybodaeth ddigonol i ofalwyr i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus arwain at anghyfiawnder i ofalwr. Mae angen i bob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt sicrhau bod eu gofalwyr yn gwybod y gallant ofyn am asesiad mwy trylwyr os nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y cymorth a ddarperir yn dilyn y rhan gyntaf o'r asesiad.

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos, ar y cyfan, pan fydd gofalwr wedi'i ganfod ac wedi cytuno i asesu eu hanghenion, eu bod yn cael eu hasesu'n briodol. Fodd bynnag, mae'r ymchwiliad wedi amlygu 4 methiant gweinyddol:

1	Cynnwys yr unigolyn sy'n derbyn gofal	Cynnwys yr unigolyn sy'n derbyn gofal ddylai fod y safbwynt diofyn a byddai peidio eu cynnwys yn benderfyniad bwriadol ac yn un sy'n cael ei gofnodi ar y ffurflen asesu.
2	Parodrwydd i ofalu	Lle nad yw graddau gallu a pharodrwydd y gofalwr i ddarparu gofal, a'u dymuniadau o ran gwaith, addysg, hyfforddiant a hamdden wedi'u hystyried yn ystod yr asesiad, dylai'r rheswm dros beidio gwneud hynny gael ei gofnodi ar y ffurflen asesu.
3	Copi o'r asesiad a gwblhawyd	Dylai gofalwyr gael cynnig copi o'u hasesiad a gwblhawyd i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gyda'r ymateb wedi'i gofnodi ar y ffurflen asesu i ddarparu cofnod asesu cyflawn.
4	Bodlonrwydd y gofalwr â'r asesiad a'r canlyniad	Dylid gofyn i ofalwyr ar ddiwedd y broses a ydynt yn fodlon â'r broses asesu a'r canlyniadau a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion. Byddai hyn yn caniatáu i feysydd lle mae anfodlonrwydd neu angen heb ei ddiwallu gael eu hystyried ymhellach a'u datrys ar unwaith. Yn achos darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, mi fyddai'n gyfle i ystyried a oedd angen atgyfeirio'r gofalwr yn ôl at yr awdurdod lleol, os nad oedd y cymorth oedd ar gael yn diwallu anghenion y gofalwr. Dylai gofalwyr gael eu hysbysu bod modd iddynt ailgysylltu â'r Cyngor, os oes unrhyw newidiadau arwyddocaol i'w rôl fel gofalwr, i gael eu hailasesu, a hynny os oedd ganddynt gynllun cymorth ffurfiol neu a yw'n amser ei adolygu neu beidio.

Mae'n achos pryder nad oedd asesiadau gofalwyr ifanc yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cael eu dogfennu ar ffurflen asesiad o anghenion gofalwyr ffurfiol ac unigol ac nid oedd yr ymchwiliad yn dod i unrhyw gasgliadau o ran a oedd yr asesiadau a gynhaliwyd yn briodol, nac a oedd anghenion y gofalwyr ifanc wedi eu hystyried a'u diwallu'n briodol. Nodaf fod y Cyngor yn cydnabod nad oedd wedi cwblhau fformat asesu ffurfiol ar gyfer gofalwyr ifanc ond dywedodd fod sefyllfa'r gofalwr, ar y cyfan, wedi'i chofnodi mewn nodiadau achos ychwanegol ar eu systemau rheoli achosion, i ategu'r dogfennau a ddarparwyd. Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor ddefnyddio'r rhain ar gyfer yr ymchwiliad. Mae diffyg asesiadau cynhwysfawr wedi'u dogfennu ar gyfer gofalwyr ifanc unigol yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot yn destun pryder. Rwyf, fodd bynnag, wedi nodi a chroesawu'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot i ddiweddaru eu system rheoli achosion a fydd yn gwella sut mae asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu cofnodi.

b) A yw rhai sydd â hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr yn cael gwybod am eu hawl i ofyn am asesiad o anghenion gofalwyr

Roedd poblogaeth Cymru yng Nghyfrifiad 2021 yn 3,107,500. Yn ôl y Cyfrifiad hwn, roedd rhwng 10% a 12% o'r boblogaeth (dros 5 oed) yn ardaloedd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt wedi'u hadnabod fel gofalwyr – cyfanswm o 60,717 o ofalwyr. Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad hwn mai dim ond 1,710 o ofalwyr, 2.8% o'r boblogaeth ofalwyr, oedd wedi cael asesu eu hanghenion gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, neu eu darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, yn 2022/2023. O'r rhain, dim ond 900 o asesiadau a arweiniodd at gynllun cymorth, sy'n cyfateb i 1.5% o'r boblogaeth ofalwyr yn ardaloedd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt sy'n cael eu helpu drwy gynllun cymorth ffurfiol.

Rwyf yn cydnabod bod rhai gofalwyr sy'n deall, neu gael gwybod beth yw eu hawliau'n gwrthod asesiad neu efallai na fydd angen cymorth arnynt. Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt sicrhau bod gofalwyr yn cael digon o wybodaeth am y broses asesu a'r cymorth a all fod ar gael iddynt, fel gofalwyr. Mae gofalwyr yn aml yn canfod ei hunain mewn rôl fel gofalwr ac, wrth i ofynion

y rôl honno drymhau'n raddol, efallai na fyddant yn ymwybodol o'i heffaith ar eu llesiant eu hunain ac nad oes ganddynt yr amser, oherwydd y galwadau sydd arnynt, i ganfod drostynt eu hunain pa help all fod ar gael. Mae'n achos pryder, felly, mai cyfran fechan iawn yn unig o'r bobl a nodwyd fel gofalwyr yng Nghyfrifiad 2021 sydd wedi cael asesu eu hanghenion gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn ystod 2022/2023.

Ni fydd gan bob gofalwr yr amser na'r gallu i ymchwilio i'w hawliau. Mi allant felly barhau heb help. Roedd tystiolaeth o blith yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt o ofalwyr nad oedd yn cael gwybod beth oedd eu hawliau. Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth o ofalwyr yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir heb gael eu hysbysu o'u hawliau.

Mae'r Cod Rhan 3 yn rhoi gofyniad sy'n datgan bod yn rhaid i ddull awdurdodau lleol o asesu angen a chymhwystra gael ei gyfleu'n glir fel y bydd pawb yn gwybod sut mae mynd ati i gael asesiad, yr hyn mae asesiad yn ei olygu, sut y caiff ei gynnal, pwy fydd yn gysylltiedig â'r broses a'r hyn y bydd yn ei olygu iddynt. Rhoddodd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt enghreifftiau da o'u hadnoddau gwybodaeth ar gyfer gofalwyr. Fodd bynnag, gellid gwneud gwelliannau i'r adnoddau sydd ar gael gan y 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt i helpu gofalwyr i ddeall yr hyn sydd ynghlwm wrth asesiad a beth allai ei olygu iddynt. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu. Dylid hysbysu pobl yn glir o'r hyn y gallant ei ddisgwyl i'w galluogi i baratoi ar gyfer eu hasesiad.

Bydd staff Gwaith Cymdeithasol, oherwydd natur eu gwaith yn dod i gysylltiad â gofalwyr wrth gyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth. Mae ganddynt rôl sylfaenol i adnabod gofalwyr, sicrhau eu bod yn gwybod beth yw eu hawliau a'r mathau o gymorth a all fod ar gael iddynt mewn ffordd agored a thryloyw, gan gynnwys asesiad o anghenion gofalwyr. Rhaid iddynt wneud yn siŵr bod pob cysylltiad yn cyfrif i ganfod a helpu gofalwyr di-dâl yn y gymuned. Dywed Egwyddor 2 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da fod yn rhaid iddynt ganolbwyntio ar y cwsmer, gan sicrhau bod gofalwyr yn cael gafael ar wasanaethau'n rhwydd a'u bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Rwyf yn cydnabod y gall anghenion rhai gofalwyr gael eu hystyried yng nghynllun cymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal, fel rhan o Asesiad Integredig. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod 156 o ofalwyr wedi gwrthod asesiad drwy eu hawl eu hunain felly eu bod yn debygol o fod wedi cael ystyriaeth o'u hanghenion fel rhan o asesiad y person y gofelir amdano neu nad oeddent am gael un o gwbl. Dywedodd yn benodol fod darpariaeth seibiant ar gyfer y gofalwr wedi'i briodoli a'i gofnodi ar gynllun gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Yn aml bydd cysylltiad amlwg rhwng anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal ac anghenion cymorth y gofalwr, er enghraifft, gall darparu cyfleoedd i gymdeithasu i'r unigolyn sy'n derbyn gofal fod yn gyfle i'r gofalwr gael seibiant, sy'n golygu'n aml nad oes gan y gofalwr ddim anghenion ychwanegol sydd angen eu hasesu. Fodd bynnag, mae angen i staff Gwaith Cymdeithasol sicrhau bod hawliau'r gofalwr i asesu eu hanghenion yn cael eu cadw ar wahân i rai'r unigolyn sy'n derbyn gofal a bod hynny'n cael ei egluro'n llawn i'r gofalwyr a bod gofalwyr yn cael y cyfle hwn yn unol ag Egwyddor 2 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da. Er bod Asesiadau Integredig yn dderbyniol ac yn cael eu caniatáu o dan Adran 28 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae angen i staff Gwaith Cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (ac unrhyw awdurdod lleol arall sy'n asesu a chofnodi anghenion gofalwyr fel rhan o Asesiad Integredig) sicrhau eu bod wedi gwneud yn siŵr bod y gofalwr yn deall eu hawliau i gael asesu eu hanghenion ar wahân. Pan fydd Asesiad Integredig wedi'i gwblhau, rhaid i'r gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal fod wedi cytuno i'r dull hwn a bod y penderfyniad yn cael ei gofnodi. Mae'n hanfodol bod gofalwyr yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac y cydymffurfir â'r gofyniad bod gofalwyr yn cael y dewis i ofyn i'w hanghenion gael eu hasesu ar wahân. Unwaith y cânt eu hadnabod fel gofalwr, dylai gofalwyr gael cynnig asesiad o anghenion gofalwr drwy eu hawl eu hunain, a dylid cofnodi eu penderfyniad.

Daw staff GCCh hefyd i gysylltiad â gofalwyr. Efallai na fydd gofalwyr eu hunain yn cysylltu â'u cyngor ynglŷn â'u hunain, ond efallai y byddant yn chwilio am gymorth i rywun maent yn gofalu amdanynt. Mae hwn yn gyfle i ganfod gofalwyr ac i'w hysbysu o'u hawliau a'r cymorth a all fod ar gael iddynt yn unol ag Egwyddor 3 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da. Cyfeiriodd aelod staff GCCh yng Nghyngor Sir Ceredigion at yr angen i "ddarllen rhwng y llinellau" wrth ddelio â galwadau ac i ddeall y pethau nad ydynt yn cael eu dweud yn agored, i sicrhau bod y rhai nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn ofalwyr,

neu nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau, yn cael eu hysbysu'n briodol. Mae hwn yn feddylfryd i'w ganmol.

Mae tystiolaeth o arolygon staff yn awgrymu nad oedd yr holl staff GCCh yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i'w helpu yn eu rôl. Ac eithrio staff GCCh o Gyngor Sir Ceredigion, ychydig yn unig o staff GCCh a ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant penodol ar hawliau gofalwyr a sut i asesu anghenion gofalwyr. Nid oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau oedd ar gael i helpu gofalwyr. Efallai bod hyn hefyd wedi cyfrannu at yr anawsterau a brofwyd gan Ofalwr R wrth geisio cael asesu eu hanghenion fel gofalwr o bell. Mae Egwyddor 1 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da yn cynnwys defnyddio staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Ac eithrio staff GCCh yng Ngheredigion, mae'r methiant gan Gyngor Sir Caerffili, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot i ddarparu hyfforddiant priodol i staff perthnasol yn destun pryder.

Mae rhagor o gyfleoedd i ganfod gofalwyr yn gynnar, i godi ymwybyddiaeth o'u hawliau ac i rannu gwybodaeth ar gael drwy adrannau'r cyngor. Bydd llawer o staff, er enghraifft, tai, gofal a thrwsio ac addysg, yn dod i gysylltiad â gofalwyr drwy eu gwaith. Rhaid iddynt gael gwybodaeth, a'u grymuso i rannu gwybodaeth i allu cyfeirio gofalwyr at y cymorth sydd ar gael. Yn yr un modd, dylai cynghorwyr fod yn ymwybodol o hawliau gofalwyr fel eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth â'r etholwyr maent yn dod i gysylltiad â hwy yn eu rolau.

Canfu Adroddiad adolygiad cyflym ADSS Cymru nad awdurdodau lleol yn unig oedd yn gyfrifol am ganfod gofalwyr. Dywedodd y dylai meddygfeydd Meddygon Teulu a gwasanaethau iechyd eraill chwarae mwy o ran o fewn system iechyd a gofal cymdeithasol fwy integredig. Cyfeiriodd Gofalwr A a Gofalwr R at gysylltiad â gwasanaethau iechyd a naill ai ni chawsant wybod am eu hawliau, neu nid oedd y gwasanaethau'n ymwybodol o hawliau gofalwyr fel gofalwyr o bell.

Rwyf wedi gweld peth tystiolaeth o ddull cydweithredol rhwng gwasanaethau iechyd a'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae byrddau arddangos gofalwyr i'w gweld mewn ysbytai ac mae'n gweithio â fferyllfeydd i sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael meddyginiaethau i'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael hyrwyddwyr gofalwyr mewn meddygfeydd Meddygon Teulu. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion Lwybr Atgyfeirio Gofalwyr rhanbarthol, sy'n annog gofalwyr i gofrestru fel gofalwyr â'u Meddyg Teulu, a bydd eu manylion, gyda'u cydsyniad, yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweithio â gwasanaethau iechyd i ganfod gofalwyr yn gynnar i alluogi ymyrryd ac atal cynnar. Mae

nifer o'r mentrau hyn hefyd ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint. Mae hefyd yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau iechyd a phartneriaid trydydd sector trwy ei borth gofalwyr ac yn comisiynu rhai swyddi arbenigol trwy NEWCIS.

Mae Egwyddor 3 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da yn cynnwys gofyniad ar gyrff cyhoeddus i fod yn eglur ac agored ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau a sicrhau bod gwybodaeth yn eglur, cywir a chyflawn. Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yn amlwg fod gwahanol enwau'n cael eu defnyddio i gyfeirio at asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae 'Asesiad o anghenion gofalwyr', a sgwrs 'Beth sy'n bwysig', ac 'asesiad llesiant' i gyd wedi cael eu defnyddio i gyfeirio at yr hyn sydd, yn y bôn, yn asesiad o anghenion gofalwyr fel y'i disgrifir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Os na chyfeirir at anghenion gofalwyr felly, dylai gofalwyr gael gwybod bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn cyfateb i asesiad o anghenion gofalwyr, fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn yr un modd, mae'r dystiolaeth wedi dangos bod y ffin rhwng asesiadau gofalwyr ac asesiadau rhianta'n aneglur, ac nad yw rhieni o reidrwydd yn gwybod y gwahaniaeth rhyngddynt (staff Cyngor Castell-nedd Port Talbot) gyda rhiant, Gofalwr J, yn cael ei symud o adran i adran wrth iddi geisio cadarnhau ei hawliau fel gofalwr.

Dangosodd y dystiolaeth y byddai'n fuddiol i ofalwyr pe bai'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn cynnwys enghreifftiau o sut yr oedd gofalwyr wedi elwa ar asesiadau o anghenion gofalwyr, gydag enghreifftiau o'r gwahanol ffyrdd o helpu gofalwyr a sylwadau'r gofalwyr ar sut yr oedd eu hasesiadau wedi effeithio ar eu rôl fel gofalwr ac ar eu llesiant.

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr i rieni, yn agored ac eglur fel y byddant yn ymwybodol o'r broses, gan gynnwys y defnydd o ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir a'r gwahanol ffyrdd sydd gan awdurdodau lleol o ddarparu cymorth. Pan fydd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu, bydd angen i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt fod yn eglur ynglŷn â'u rolau. Dylid rhoi digon o wybodaeth i ofalwyr mewn ffordd eglur a thryloyw ym mhob un o'r 4 awdurdod lleol i'w galluogi i ddeall y broses ac i osgoi unrhyw anghyfiawnder i ofalwyr.

c) Lle bydd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu, a yw'r gwasanaethau asesu hynny'n cael eu darparu'n briodol ac a yw awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau contractio'n briodol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn comisiynu asesiadau gofalwyr ifanc gan Gofalwyr Ceredigion Carers. Mae'n bryder nad oedd asesiadau gofalwyr ifanc yng Nghyngor Sir Ceredigion yn cael eu dogfennu'n ffurfiol ar ffurflen asesu anghenion gofalwyr ffurfiol ac unigol a bod hynny'n golygu na allai'r ymchwiliad ddod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â pha mor briodol oedd y broses o gynnal yr asesiadau, nac ychwaith a oedd anghenion y gofalwyr ifanc wedi'u hystyried a'u diwallu'n briodol.

Dangosodd y dystiolaeth nad oedd gan y Cyngor lawer o oruchwyliaeth dros y gwasanaeth a ddarparwyd gan Gofalwyr Ceredigion Carers. Er bod Gofalwyr Ceredigion Carers yn paratoi adroddiadau monitro'r contract, nid yw'n amlwg pa gamau, os o gwbl, sy'n dilyn na sut mae'r Cyngor yn cael ei sicrhau o ansawdd yr asesiadau a gwblhawyd. Mae'r ymchwiliad hwn wedi amlygu diffygion yn y modd mae asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn Gofalwyr Ceredigion Carers yn cael eu cofnodi. Nid oedd y Cyngor wedi tynnu sylw at hyn yn flaenorol. Mae'n bryder nad oedd Cyngor Sir Ceredigion, gyda'r ddyletswydd statudol o asesu anghenion gofalwyr ifanc yn y sir, wedi nodi'r diffyg cofnodion a oedd yn cael eu cwblhau gan y darparwr gwasanaeth a gomisiynwyd ganddo. Mae hyn yn cadarnhau'r angen i gael systemau ar waith i wirio ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ofalwyr. Fel y nodwyd yn fy nghanllaw statudol Egwyddorion Gweinyddu Da, mae gofyniad ar bob darparwr gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod ganddynt brosesau digonol ar waith i fonitro'n briodol gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r diffygion hyn wedi golygu nad oedd modd i'r Cynghorydd benderfynu a yw asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu cyflawni'n briodol yng Ngheredigion. Mae'r diffyg asesiadau cynhwysfawr a ddogfennwyd ar gyfer gofalwyr ifanc unigol yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ddiffyg gweinyddol. Fodd bynnag, mae'n galonogol fod Cyngor Sir Ceredigion eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Mae'n achos pryder nad oedd gan Gyngor Sir Ceredigion broses i fonitro a oedd gofalwyr ifanc neu'r unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn fodlon â chanlyniad asesiadau a gwblhawyd gan Gofalwyr Ceredigion Carers, ac nad oedd proses ychwaith i fonitro a oedd canlyniad asesiadau'n parhau i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc.

Nodaf fod Gofalwyr Ceredigion Carers wedi cael eu hailgomisiynu'n ddiweddar i ddarparu cymorth i ofalwr ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Dywedodd y Cyngor y byddai Gofalwyr Ceredigion Carers yn gweithio'n unol â manyleb gwasanaeth newydd ac y bydd yn rhaid iddynt rannu asesiadau a gwblhawyd â'r Cyngor i ddibenion sicrhau ansawdd. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd wedi ail-ddylunio'r ffurflen asesu i fod yn gymesur i blant. Fodd bynnag, rwyf yn bryderus gan fod Gofalwyr Ceredigion Carers yn dweud eu bod yn bwriadu parhau i beidio â threulio amser gormodol yn cynnal asesiadau gofalwyr ifanc. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn caniatáu i asesiadau o anghenion gofalwyr fod yn gymesur. Fodd bynnag, rhaid i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnal yn briodol a'u bod yn cael eu dogfennu.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu asesiadau gofalwyr ifanc ac oedolion gan Adferiad a NEWCIS. Mae'n amlwg bod gan Gyngor Sir y Fflint berthynas hir sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth â NEWCIS, ac ymddengys fod NEWCIS yn ymgymryd â rôl arweiniol yn achos gwasanaethau i ofalwyr yn ardal Sir y Fflint. Roedd NEWCIS ac Adferiad yn paratoi adroddiadau monitro'r contract i'r Cyngor ac rwyf yn falch o nodi fod y Cyngor, NEWCIS ac Adferiad yn cwrdd yn rheolaidd i archwilio ansawdd a chysondeb yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblheir. Mae archwiliadau o'r fath yn gyfle i amlygu arferion da a meysydd i'w gwella ac maent yn gyfle hefyd i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn gyson. Mae hyn yn cyd-fynd ag Egwyddor 6 o Egwyddorion Gweinyddu Da yr Ombwdsmon i geisio sicrhau gwelliant parhaus a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu i wella gwasanaeth a pherfformiad. Rwyf yn falch bod asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc ac oedolion y Sir y Fflint yn cael eu monitro'n briodol gan y Cyngor.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn comisiynu asesiadau o anghenion oedolion sy'n ofalwyr gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. Er bod y dystiolaeth a adolygwyd gennyf yn dangos bod asesiadau oedolion o anghenion gofalwyr yn ardal Castell-nedd Port Talbot yn cael eu cyflawni'n briodol gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd mae'r Cyngor yn eu goruchwylio, i sicrhau ansawdd. Mae Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot yn paratoi adroddiadau monitro'r contract i'r Cyngor ac maent yn cynnal adolygiadau contract misol ag uwch staff. Er bod y Cyngor wedi dweud ei fod wedi cynnal archwiliadau o asesiadau o anghenion gofalwyr yn flaenorol, roedd yn destun pryder nad oedd dim wedi'i gynnal ers 2022 tra'n

aros am adolygiad o'r gwasanaeth ac na chynhaliwyd unrhyw wiriadau ansawdd ar ei asesiadau gofalwyr ifanc, sy'n cael eu cwblhau'n fewnol. Mae hyn yn ddiffyg gweinyddol yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot. Ond mae'n braf gweld, fodd bynnag bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwahodd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth fel rhan o'i waith adolygu.

Er bod y 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt yn dilyn modelau gwahanol i ddarparu cymorth i ofalwyr, ac nad yw pob un ohonynt yn comisiynu gwasanaethau i asesu anghenion gofalwyr, rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt broses ar waith i archwilio asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac i wella gwasanaeth a pherfformiad yn unol ag Egwyddor 6 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da. Mae'n dda nodi bod Cyngor Sir Ceredigion wedi cyflwyno Fframwaith Ansawdd ac wedi cyflogi staff Sicrhau Ansawdd i roi goruchwyliaeth annibynnol dros asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblheir gan yr awdurdod a chan y darparwr gwasanaeth a gomisiynir ganddo.

Mae'r methiant i gwblhau archwiliadau o asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn ddiffyg gweinyddol. Pan fydd gwasanaethau'n cael eu comisiynu, rhaid i Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot sicrhau eu bod nid yn unig yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y contract ond bod ganddynt hefyd oruchwyliaeth weithredol dros ansawdd a chysondeb gwasanaethau i oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc, i sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth cymaradwy a chyfartal, yn unol â'r Egwyddorion Gweinyddu Da. Er nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn comisiynu asesiadau o anghenion gofalwyr, dylai yntau hefyd sicrhau bod ganddo broses ar waith i archwilio asesiadau a gwblhawyd.

d) A yw asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys y rhai a gwblheir gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir, yn cael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae eiriolwr annibynnol yn unigolyn a all helpu gofalwyr, a all fod yn agored i niwed neu dan anfantais, i ddeall eu hawliau a'u helpu i gyfleu eu barn a'u dymuniadau, i sicrhau bod eu

lleisiau'n cael eu clywed yn ystod eu hasesiadau o anghenion gofalwyr. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad oedd llawer o ofalwyr yn cael cynnig eiriolydd yn ystod eu hasesiad. Ychydig iawn o aelodau staff yn y 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt a gyfeiriodd at argaeledd eiriolydd annibynnol i helpu gofalwyr drwy eu hasesiad. Dylai rôl eiriolydd gael ei hesbonio i ofalwyr a dylent gael cynnig yr opsiwn o gael help eiriolydd. Dylai gofalwyr gael gwybod sut y union y gallai eiriolydd eu helpu yn ystod eu hasesiad o anghenion gofalwyr. Nid yr aelod o staff sy'n cwblhau'r asesiad o anghenion gofalwyr fydd yn gwneud y penderfyniad ar yr angen am eiriolydd. Nid yw ychwaith yn briodol i'r aelod o staff sy'n cwblhau'r asesiad i edrych ar eu hunain fel eiriolydd y gofalwr. Dylai'r cynnig a wneir, a phenderfyniad y gofalwr, gael ei gofnodi ar y ffurflen asesu. Gallai unrhyw fethiant i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr am eiriolaeth, a methiant i gofnodi eu penderfyniad, arwain at anghyfiawnder i'r gofalwr pe na bai'n gallu ymgysylltu'n llawn a deall y broses asesu.

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn 2022 fod anghysonderau yn y ffordd mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hyrwyddo a'u rheoli gan awdurdodau lleol, sy'n golygu nad yw'r gwasanaethau'n gydradd bob amser. Mae arian Taliadau Uniongyrchol yn cael eu talu gan yr awdurdod lleol i unigolyn a aseswyd fel rhywun sydd angen cymorth, fel y gallant dalu am eu gwasanaethau cymorth eu hunain yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn eu darparu.

Lle mae gofalwyr yn cael help drwy Daliadau Uniongyrchol, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y gofalwr yn alluog i reoli'r taliadau; nid yn unig yn gorfforol, ond hefyd sicrhau bod y Taliadau Uniongyrchol yn diwallu eu hanghenion. Mae'r dystiolaeth nad yw Taliadau Uniongyrchol, ar adegau, yn diwallu eu hanghenion neu eu bod yn ormod o faich yn ychwanegol at eu rôl fel gofalwr, ond, i eraill, mae'r rhyddid i gomisiynu eu gwasanaethau cymorth eu hunain yn ei siwtio'n well. Derbynnir fod y Taliadau Uniongyrchol y cyfeiriwyd atynt gan Ofalwr A, Gofalwr B a Gofalwr C, o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn rhan o gynllun gofal yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, dyma lle dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthym ei fod yn cofnodi seibiannau ar gyfer y gofalwr. Pan ddaw awdurdodau lleol i ddeall nad yw Taliadau Uniongyrchol yn gweithio i ofalwr, boed hwy'n cael eu cofnodi ar eu cynllun cymorth gofalwr eu hunain neu fel rhan o gynllun cymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal, dylid ailedrych ar fater seibiannau â hwy i weld sut y gellid ei ddarparu, os nad drwy Daliadau Uniongyrchol. Gallai

hyn, o bosibl, gael ei wneud gan Weithiwr Cymdeithasol yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Er ei fod yn cael ei gydnabod bod gan bob Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddo drefniadau i adolygu Taliadau Uniongyrchol, mae'r methiant i ailedrych ar seibiannau, os nad yw Taliadau Uniongyrchol yn diwallu anghenion y gofalwr, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir y Fflint, yn destun pryder.

Mae Adran 17 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu GCCh i ofalwyr mewn fformat hygyrch i'w galluogi i wneud cynlluniau i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth a all godi. Dywed y Cod Rhan 3 nad yw darparu gwybodaeth yn galw am asesiad. Os oes cyngor a/neu gymorth wedi'u rhoi, bydd asesiad o anghenion unigolyn wedi digwydd.

Mae'r dystiolaeth yn dangos gwahaniaethau o ran cofnodi data rhwng yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt. Yn yr asesiadau a adolygwyd, roedd Cyngor Sir y Fflint yn cofnodi'r holl gymorth a ddarparwyd yn dilyn asesiad, fel Cynllun Cymorth, ond nid oedd yr Awdurdodau eraill yr Ymchwiliwyd iddynt bob amser yn gwneud yr un peth, sy'n dangos bod cyfran o'r gwaith a wnaed gan y 3 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt i helpu gofalwyr yn mynd heb ei gofnodi, er bod asesiad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod Rhan 3. Hyn sydd i'w gyfrif am y gwahaniaeth sylweddol rhwng canran yr asesiadau sy'n arwain at gynllun cymorth yng Nghyngor Sir y Fflint (89%) a'r 3 Awdurdod arall yr Ymchwiliwyd iddynt. Yn wir, nid oedd yr un o'r asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2022/2023 wedi arwain at gynllun cymorth. Fodd bynnag, dywedodd y Cyngor ei bod yn debygol bod anghenion rhai o'r 156 o ofalwyr a wrthododd asesiad drwy eu hawl eu hunain wedi eu hystyried yn ystod Asesiad Integredig o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd fod darpariaeth seibiant i'r gofalwr yn cael ei gofnodi ar gynllun gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal Mae angen dull cyson wrth gofnodi GCCh ac asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n arwain at gynllun cymorth, gan gynnwys lle mae darpariaeth seibiannau i'r gofalwr yn cael ei gofnodi ar gynllun cymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Mae angen cofnodi faint o ofalwyr sy'n cael eu helpu drwy ddarparu GCCh ac mae angen gwybod beth yn union sy'n gwahaniaethu cynllun cymorth oddi wrth GCCh. Hefyd mae angen cofnodi faint o ofalwyr sy'n cael help drwy gamau sy'n cael eu cofnodi ar gynllun cymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Gallai rhai canllawiau Cymru gyfan, i helpu i gofnodi data mwy cyson a gwell i ddangos bod y cymorth yn cael ei ddarparu i'r gofalwr, fod yn fuddiol yn hyn o beth.

Mae'r amrywiadau hyn, a'r anawsterau mewn rhai Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn y gallu i adalw data sy'n ymwneud â gofalwyr, yn dangos ei bod yn hanfodol, yn fy marn i, bod data perthnasol yn cael eu coladu yn achos asesiadau o anghenion gofalwyr. Byddai coladu data'n well, yn gyson ac mewn ffordd gymaradwy ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru, mewn fformat y gellir ei echdynnu, yn galluogi dadansoddi gwell i hybu gwelliant, i fonitro cynnydd a chanfod meysydd lle mae angen rhagor o welliannau, yn unol ag Egwyddor 6 o'r Egwyddorion Gweinyddu Da sef ceisio gwelliant parhaus. Byddai data o'r fath hefyd yn helpu i benderfynu ac i roi sicrwydd ynglŷn ag i ba raddau mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Rwyf yn credu y dylai data gael eu casglu, ar y lefel fwyaf sylfaenol i gofnodi:

- Pwy sy'n gofalu – y gallu i adnabod gofalwyr
- Y dyddiad pan gaiff y gofalwr eu canfod a, lle derbynnir bod asesiad o anghenion gofalwyr yn briodol, y dyddiad pan gafodd eu hanghenion eu hasesu
- Nifer y gofalwyr sydd wedi cael help drwy ddarparu GCCh
- Nifer y gofalwyr sydd wedi gwrthod asesiad
- Nifer y gofalwyr y mae eu hanghenion wedi'u hasesu yn eu rhinwedd eu hunain
- Nifer y gofalwyr y mae eu hanghenion fel gofalwr wedi'u hystyried yn ystod Asesiad Integredig ochr yn ochr â'r unigolyn sy'n derbyn gofal.
- Nifer y gofalwyr sydd â chynllun cymorth
- Nifer y gofalwyr sydd wedi cael adolygu eu cynllun cymorth.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi gosod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ("y ddyletswydd cydraddoldeb") ar gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb, i hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl hebddynt, ac i feithrin cysylltiadau da rhwng yr unigolion hynny. Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried pob un o'r dyletswyddau cydraddoldeb hyn bob amser wrth wneud penderfyniadau, wrth lunio polisïau a darparu gwasanaethau.

Mae llawer o ofalwyr mewn sefyllfa fregus oherwydd eu hoedran, boed yn hen neu ifanc, eu hanawsterau iechyd corfforol neu feddyliol eu hunain, eu cefndiroedd ethnig a'u hanfantais economaidd gymdeithasol. Gofynnwyd i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt gyflwyno data cydraddoldeb i'r ymchwiliad ar gyfer oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc. Ychydig iawn o ddata a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt yn ystod yr ymchwiliad. Mewn llawer o achosion, nid oedd data'n ymwneud ag oedran, cyfeiriadedd rhywiol nac anabledd wedi'u cofnodi. Er bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn darparu data ar gyfer ethnigrwydd, oedran a rhyw, nid oedd bob amser yn cofnodi ar gyfer ethnigrwydd nac anghenion iaith. Roedd Cyngor Sir y Fflint yn darparu data cydraddoldeb a gasglwyd o blith ei holl ofalwyr cofrestredig mewn ymateb i fy adroddiad drafft. Roedd y data hyn yn cynnwys ethnigrwydd, oedran, anabledd, rhywedd a dewis iaith. Fodd bynnag, ni ddarparwyd dim data cydraddoldeb penodol ar gyfer y gofalwyr hynny a oedd wedi cael asesiad ffurfiol o'u hanghenion fel gofalwyr.

Mae'r data cydraddoldeb sy'n ymwneud â gofalwyr, yn gyffredinol ac yn achos y rhai yr oedd eu hanghenion wedi eu hasesu, yn anghyflawn ac yn anghyson ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt, sy'n destun pryder. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, nid yw'r data'n ddigon cynhwysfawr i alluogi dadansoddi digon trylwyr i ddangos a yw awdurdodau'n ystyried dyletswyddau cydraddoldeb bob amser wrth ddarparu gwasanaethau i ofalwyr. Byddai gwella trefniadau cofnodi data cydraddoldeb yn helpu awdurdodau lleol i ganfod grwpiau o ofalwyr nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd ac yn sicrhau bod amrywiaeth y bobl sy'n darparu gofal i anwyliaid yn weladwy ac nad ydynt yn profi anfantais. Er enghraifft, lle'r oedd data'n cael eu casglu, ychydig iawn o ofalwyr a gofnodwyd fel ethnigrwydd heblaw Gwyn, ac mi allai hyn ddangos anghydraddoldeb.

Mae'r Cod Rhan 3 yn datgan bod yn rhaid i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith. Rwyf yn fodlon, ar y cyfan, bod gofalwyr yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg a bod staff naill ai'n siaradwyr Cymraeg neu eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau cyfieithu. Rwyf yn bryderus, fodd bynnag, fod y dystiolaeth yn dangos nad yw gofalwyr Cymraeg eu hiaith yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dewis cael gwasanaethau yn Gymraeg, oherwydd yr oedi posibl y gallai hynny ei achosi. O ran gofalwyr sy'n dewis iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, gan gynnwys BSL, roedd staff, ar y cyfan, yn gallu cael gwasanaethau cyfieithu i'w helpu i ddefnyddio gwasanaethau. Rwyf yn bryderus, fodd bynnag, fod rhai aelodau staff yng Nghyngor Sir y Fflint wedi dweud y byddent yn defnyddio ffrind neu aelod o'r teulu i gyfieithu i'r gofalwr. Dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn, oherwydd y perygl na all teulu neu ffrindiau gyfleu'r wybodaeth yn gywir. Mi allai hefyd fod yn amhriodol i rannu materion personol sy'n ymwneud â'r gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal â hwy.

Argymhellion

Rwyf yn argymell bod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, o fewn 6 mis[5] i ddyddiad yr adroddiad terfynol, lle nodir hynny, yn gweithredu'r argymhellion canlynol:

	Cymwys i	Argymhelliad
a)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflint Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Newid y ffurflenni asesu anghenion gofalwyr i: i. Cynnwys a yw'r unigolyn sy'n derbyn gofal wedi'i gynnwys/wedi ymgynghori â hwy, ac os na, pam. ii. Rhoi sylw penodol a chofnodi'r cwestiynau sy'n gofyn i ba raddau mae'r gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu gofal. iii. Rhoi sylw penodol i, a chofnodi'r cwestiynau sy'n gofyn a yw'r gofalwr yn gweithio, neu'n dymuno gweithio ac a ydynt, neu'n dymuno cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden, oni bai bod yr ystyriaethau hyn yn amherthnasol, ac os mai dyna'r achos dylid cofnodi'r rheswm hwnnw. iv. Cynnwys a yw'r gofalwr wedi cael cynnig copi o'u hasesiad a'r ymateb a gofnodwyd (ac eithrio ffurflenni asesu gofalwyr ifanc yng Nghyngor Sir y Fflint). v. Cynnwys a yw gofalwyr yn fodlon â'r broses asesu ac â'r canlyniad a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion ac a ydynt yn fodlon y bydd y canlyniadau a nodwyd, ar yr adeg honno, yn diwallu eu hanghenion yn llawn, gan ganiatáu eu barn, ac unrhyw anghytundeb, neu feysydd heb eu diwallu, gael eu cofnodi.

[5] Mae adran 26 yn egluro bod yn rhaid i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt hysbysu'r Ombwdsmon cyn diwedd y cyfnod a ganiateir o'r camau y mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion. Y cyfnod a ganiateir yw 1 mis, neu unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon.

b)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflint Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Sicrhau fod ganddo daflen ffeithiau ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n cynnwys y broses asesu, rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynir (pan yn gymwys), yr hyn y gall gofalwyr ei ddisgwyl o'r asesiad ac enghreifftiau byw o sut mae gofalwyr wedi cael eu helpu, yn dilyn asesiad. Dylai'r daflen ffeithiau fod ar gael hefyd mewn fformat Hawdd ei Ddeall (system wedi'i seilio ar luniau i helpu rhai ag anawsterau dysgu i ddeall), yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill.
c)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflint Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Sicrhau fod ganddo dempled llythyr i'w gynnwys wrth rannu'r asesiad wedi'i gwblhau â'r gofalwr, sy'n cynnwys amlinelliad o ganlyniadau'r asesiad ac sy'n disgrifio beth yw trefniadau'r adolygiad (neu ddim) a sut y gall gofalwyr gysylltu i ofyn am adolygiad neu ailasesiad.
d)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflint Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Darparu hyfforddiant i staff GCCh / Gwaith Cymdeithasol (ac eithrio staff GCCh yng Ngheredigion) i ddiweddaru eu gwybodaeth am hawliau gofalwyr, atgyfnerthu'r rôl maent yn ei chwarae i ganfod a hyrwyddo hawliau gofalwyr, disgrifio proses a rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynir (pan yn briodol) a nodi pa fath o gymorth, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol, a all fod ar gael i'r gofalwyr.

e)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflintl Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ehangach cynghorau sydd, oherwydd natur eu rolau, yn dod i gysylltiad â gofalwyr, i atgyfnerthu'r rôl mae adrannau eraill cynghorau'n ei chwarae i ganfod gofalwyr.
f)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflintl Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Adolygu a pharatoi cynllun gweithredu i wella sut mae gwybodaeth am gydraddoldeb yn cael ei chofnodi yn achos gofalwyr. Yn achos Cyngor Sir y Fflint, mae hyn yn berthnasol yn unig i gofnodi data cydraddoldeb gofalwyr y mae eu hanghenion wedi'u hasesu (y gofynnwyd amdano gan yr ymchwiliad ond ni ddarparwyd).
g)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflintl Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Cadarnhau a rhannu cynllun i wella cydweithrediad â gwasanaethau iechyd, gan gynnwys Meddygon Teulu, ysbytai, a fferyllfeydd.
h)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir y Fflint	Adolygu a gweithredu dull i ailedrych ar y defnydd o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer gofalwyr unigol, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gofalwr, gan gynnwys proses sy'n galluogi ystyried darparu seibiant arall lle nad ydynt yn briodol mwyach.

i)	Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Gwella sut mae asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu cofnodi.
j)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Yn achos gofalwyr ifanc, newid y ffurflenni asesu i alluogi ystyried a chofnodi canlyniadau y mae'r unigolyn/unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plant/plentyn hwnnw'n dymuno eu cyflawni ar eu cyfer.
k)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Dylunio a gweithredu proses i archwilio asesiadau a gwblhawyd o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc, gan gynnwys pan fydd anghenion gofalwyr yn cael eu hymgorffori mewn Asesiadau Integredig.

Gyda golwg ar y potensial ar gyfer dysgu ehangach yn sgil yr ymchwiliad hwn, rwyf yn gwahodd y 18 awdurdod lleol arall yng Nghymru i:

- Ystyried yr argymhellion (a-k) a wnaed i'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt (paragraffau 145 i 147) ac i weithredu ar unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella eu darpariaeth.

- Adolygu canfyddiadau'r adroddiad hwn ar lefel Cymru gyfan, er enghraifft, yn y COLIN, i drafod a chynllunio i wella asesiadau o anghenion gofalwyr ledled Cymru.

Rwyf yn croesawu sylwadau gan y 18 corff nad ymchwiliwyd iddynt ar y camau maent wedi'u cymryd yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn. Byddaf yn monitro cynnydd a gwelliannau o ran asesiadau o anghenion gofalwyr ledled Cymru, yn y man.

Nid yw'r gwahoddiadau i'r 18 awdurdod lleol arall yn argymhellion ffurfiol a wnaed yn unol â'r Ddeddf, oherwydd nid wyf wedi ymchwilio i'r cyrff rheini. Maent wedi'u cynnwys i helpu i annog gwelliannau i'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Dyma oedd diben a bwriad y Senedd pan weithredwyd pŵer ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun ac rwyf yn gobeithio y bydd pob awdurdod lleol yn manteisio ar y cyfle i ddysgu o'r ymchwiliad hwn.

Wrth ymateb i fy adroddiad drafft, rwyf yn falch o nodi bod camau'n cael eu cymryd eisoes gan Lywodraeth Cymru drwy ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r MAG. Roeddwn yn falch hefyd o weld y bydd cymorth i ofalwyr yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at fonitro canlyniadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r gwelliannau a wneir i ganfod gofalwyr, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a'r help a all fod ar gael iddynt.

Byddaf yn cysylltu ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar gamau y gellir eu cymryd i wella sut mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu gweinyddu ledled Cymru, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Rhoddwyd cyfle i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt weld ac i wneud sylwadau ar y drafftiau o'r adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Rwyf yn falch o nodi, yn ôl eu sylwadau ar y drafftiau o'r adroddiad hwn, fod y 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd iddynt wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn ac i gyflwyno tystiolaeth imi o'u cydymffurfiaeth â hwy o fewn 6 mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

Michelle Morris
Ombwdsmon

Dyddiad 17/10/2024

NODYN I GLOI

Mae'r ddogfen hon yn cyfrif fel adroddiad o dan Adran 4 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

Atodiadau

Atodiad 1 – Adolygu'r data

Atodiad 2 – Rhesymwaith dros ymchwilio i'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt

Atodiad 3 – Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

Atodiad 4 – Methodoleg

Atodiad 5 – Data

Atodiad 6 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan:

- y Cyngor
- staff
- rhai â phrofiad bywyd.

Atodiad 7 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Sir Ceredigion gan:

- y Cyngor
- Gofalwyr Ceredigion Carers
- staff
- rhai â phrofiad bywyd.

Atodiad 8 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Sir y Fflint gan

- y Cyngor
- NEWCIS
- Adferiad
- staff
- rhai â phrofiad bywyd.

Atodiad 9 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Castell-nedd Port Talbot gan

- y Cyngor
- Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot
- staff
- rhai â phrofiad bywyd

Atodiad 10 – Tystiolaeth gan gyrff eraill

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Ombwdson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales